



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Diwygio cyfraith ac arferion etholiadol

**Larissa Peixoto Gomes, James Downe,
Manon Roberts**
Mawrth 2022



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisiâu, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall dystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy www.wcpp.org.uk

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.



Economic
and Social
Research Council

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y **DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.**



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Pleidleisio cynnar	6
Arferion etholiadol arloesol	17
Diogelwch ymgeiswyr ac asiantau	36
Ariannu ymgyrchoedd a'r gwariant arnyn nhw	54
Cyrff rheoli etholiadol (EMBs)	62
Casgliad	64
Sylwadau terfynol	68
Llyfryddiaeth	69

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd dystiolaeth ynghylch sawl maes o ddiwygio gweinyddiaeth etholiadol.
- Mae'n defnyddio tystiolaeth ryngwladol ynghylch sut mae newidiadau mewn gweinyddiaeth etholiadol wedi effeithio ar y nifer sy'n pleidleisio, er mwyn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac awgrymu meysydd posibl i'w gwella.
- Roedd pedwar maes ffocws: pleidleisio cynnar, arferion etholiadol arloesol, diogelwch ymgeiswyr ac asiantau, ac ariannu ymgyrchoedd a'r gwariant arnyn nhw. Dadansoddwyd rôl cyrff rheoli etholiadol yn y meysydd hyn hefyd.
- Mae gan bleidleisio cynnar botensial i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio os caiff ei gyfuno â mesurau eraill, megis cofrestru ar yr un diwrnod. Y bobl hynny mewn grwpiau oedran hŷn, sydd â lefelau uwch o ran diddordeb gwleidyddol, addysg ac incwm, sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio pleidleisio cynnar.
- Mae arferion arloesol eraill, megis pleidleisio hyblyg, pleidleisio symudol, a gwelliannau mewn arferion cofrestru wedi dangos mân effeithiau ar y nifer sy'n pleidleisio, er nad yw'r ymchwil yn y maes hwn yn glir. Pleidleisio drwy'r post yw'r math o arfer arloesol sydd wedi dangos yr effaith gryfaf ar gynyddu cyfranogiad.
- Mae bron pob ymchwil i ddiogelwch ymgeiswyr ac asiantau yn canolbwyntio ar rywedd a gwleidyddiaeth. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod trais a brofir gan weithredwyr gwleidyddol yn seiliedig ar rywedd a hil. Dylid ystyried hyn wrth ymgymryd â mesurau atal.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth yn dangos bod y posibilrwydd o drais yn cael ei ystyried ym mhenderfyniad menywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i fynd drwy'r broses o ddod yn ymgeiswyr, ond nid yw pwysigrwydd y ffactor hwn yn glir.
- Mae digon o le i Lywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth o ran data etholiadau a thryloywder. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau yn y ffordd y mae pleidiau gwleidyddol yn casglu ac yn cyflwyno data ariannu.

Cyflwyniad

Cafodd pŵer dros etholiadau ei ddatganoli i Gymru drwy Ddeddf Cymru 2017. Ers hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi cychwyn ar raglen o ddiwygio etholiadol a nodwyd fwyaf gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd y rhain yn ymestyn y fasnachfaint i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac i ddinasyddion tramor cymwys ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol. Roeddynt hefyd yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diwygio etholiadol yn y dyfodol, yn enwedig o ran cofrestru awtomatig a'r defnydd dewisol o system etholiadol wahanol (Pleidleisio Sengl Drosglwyddadwy) mewn etholiadau llywodraeth leol.

Yn unol ag agenda barhaus i sicrhau bod etholiadau yng Nghymru mor hygyrch â phosibl, gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwil ar y pedwar pwnc canlynol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol yn y dyfodol yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn:

1. Pleidleisio cynnar
2. Arferion etholiadol arloesol
3. Diogelwch ymgeiswyr ac asiantau
4. Ariannu ymgyrchoedd a'r gwariant arnyn nhw

Mae gan newidiadau i weinyddiaeth etholiadol y potensial i fod mor effeithiol â newidiadau i'r system etholiadol ar faterion fel cynwysoldeb pleidleiswyr, nifer y pleidleiswyr, a phryderon ynghylch dibynadwyedd prosesau etholiadol. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth ryngwladol (gan gynnwys llenyddiaeth academiaidd a llwyd) i ystyried sut y gellid diwygio etholiadau'n effeithiol yng Nghymru. Dadansoddwyd dros 300 o ddarnau unigol o ymchwil.

Pleidleisio cynnar

Crynodeb

- Diffinnir pleidleisio cynnar fel unrhyw bleidleisio a gynhelir cyn diwrnod pleidleisio penodol, a all gynnwys pleidleisio drwy'r post.
- Mae i'w gael ar ryw ffurf mewn 73 o wledydd. Mewn 14 o'r gwledydd hyn, mae gan bob pleidleisiwr fynediad at bleidleisio cynnar, tra mae 59 o wledydd yn ei gynnig i rai pleidleiswyr cymwys.
- Mae gan bleidleisio cynnar y potensial i gynyddu nifer y pleidleiswyr sy'n pleidleisio gan y gall gynnig mwy o hyblygrwydd o ran pryd bydd dinasyddion yn dewis pleidleisio, gan ganiatáu iddynt bleidleisio o amgylch cyfrifoldebau gwaith a gofal.
- Mae'r cyfle i bleidleisio'n gynnar yn tueddu i gael ei ddefnyddio amlaf gan yr henoed, a gan y rhai sydd â lefelau uchel o ddiddordeb a gwybodaeth gwleidyddol a chysylltiadau â phleidiau. Fodd bynnag, dyma'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o bleidleisio mewn etholiadau pa un a oes pleidleisio cynnar neu beidio.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod pleidleisio cynnar yn cael ei ddefnyddio'n ehangach gan bleidleiswyr gwledig a phobl anabl, gan ei fod yn cynyddu'r cyfle i bleidleisio.

Cwestiynau ymchwil

Adolygwyd y dystiolaeth ar bleidleisio cynnar yn unol â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Beth yw'r dystiolaeth ynghylch pleidleisio cynnar a chynwysoldeb ac ymgysylltu? Pa fframweithiau pleidleisio cynnar sy'n bodoli?
2. Pa becyn o ddiwygiadau (e.e., pleidleisio drwy'r post/dirprwy ar y cyd â phleidleisio cynnar) a ddefnyddir mewn mannau eraill a beth yw'r effaith?
3. A yw pleidleisio cynnar yn annog pleidleisio? Os felly, a yw hyn yn effeithio ar grwpiau poblogaeth yn wahanol?

Y nod oedd darganfod sut y gwneir pleidleisio cynnar mewn mannau eraill, beth fu'r canlyniadau, ac ystyried sut y gellid defnyddio'r strategaeth hon yng Nghymru.


Cyflwyniad

Diffinnir pleidleisio cynnar fel unrhyw bleidleisio a gynhelir cyn diwrnod pleidleisio penodol. Gall ddigwydd mewn lleoliadau ar wahân i leoedd pleidleisio arferol ac mae'n cynnwys pleidleisio drwy'r post. Mae cyfnod pleidleisio cynnar fel arfer yn para am ychydig ddyddiau cyn etholiad ond gall bara am wythnosau. Mae pleidleisio cynnar i'w gael ar ryw ffurf mewn 73 o wledydd, gyda rheolau cymhwysedd gwahanol (gweler Ffigur 1). Mae 14 o wledydd yn caniatáu i bob pleidleisiwr gael mynediad at bleidleisio cynnar. Er enghraifft, yng ngwledydd Llychlyn, mae gan bob pleidleisiwr fynediad at bleidleisio'n gynnar ac nid oes rhaid cofrestru'n gynnar, ond yn Angola a Phortiwgal, rhaid i unrhyw un sy'n dymuno pleidleisio'n gynnar gofrestru i wneud hynny (IDEA, 2021).

Yn dibynnu ar y wlad, mae cymhwysedd yn cynnwys:

- **Gweithwyr sifft** (e.e., gweithwyr iechyd, swyddogion yr heddlu)
- **Y rhai sydd i ffwrdd oherwydd eu gwaith** (e.e., peilotiaid, newyddiadurwyr)
- **Aelodau o'r Lluoedd Arfog**
- **Y rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell** neu mewn ardaloedd sy'n debygol o ddioddef tywydd eithafol
- **Bod i ffwrdd ar y diwrnod pleidleisio**
- **Anghenion hygyrchedd neu salwch**, gan gynnwys Covid-19, anabledd, neu faterion sy'n ymwneud â beichiogrwydd
- **Pensiynwyr**
- **Pobl sydd wedi'u carcharu**

Ffigur 1: Gwledydd sydd â phleidleisio cynnar yn ôl cymhwysedd



Ffynhonnell: yr awduron, gan ddefnyddio data o Rwydwaith Gwybodaeth Etholiadol ACE

Defnyddio pleidleisio cynnar i newid arferion

Mater o arfer a thraddodiad yw pleidleisio. Mae unigolion yn pleidleisio am ei fod yn rhan annatod ohonynt o ganlyniad i ymddygiadau blaenorol. Effeithir yn yr un modd ar y ffordd y maent yn pleidleisio (Blais et al., 2007; Kersting, 2007; Rojas a Müller, 2014; Weil, 2017; Wass et al., 2017; Heinmaa a Kalandadze, 2021). Felly, er mwyn gwerthuso effaith trefniadau pleidleisio cynnar ar y tebygolrwydd o bleidleisio, mae'n bwysig deall:

- Pam nad yw unigolion yn pleidleisio
- A oes rhesymau systemig dros beidio â phleidleisio
- Sut ac ar gyfer pwy y byddai cyfleustra ychwanegol pleidleisio cynnar yn cynyddu cynhwysiant gwleidyddol (Garnett, 2019)

Nod ymchwil yn y maes hwn yw deall a yw diwygiadau pleidleisio cynnar yn newid patrymau ymddygiad **pleidleiswyr arferol** (pobl a fydd yn pleidleisio beth bynnag

yw'r prosesau a gynigir) a **rhai nad ydynt yn bleidleiswyr arferol** (pobl nad ydynt yn arfer pleidleisio). Efallai nad o ddewis y mae'r rhai nad ydynt yn bleidleiswyr arferol yn cael eu dieithrio o'r broses ddemocrataidd, ond oherwydd ffactorau sy'n effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd ar lefel unigol a chymdeithasol – ac mae angen mynd i'r afael â'r ddau beth er mwyn cynyddu cyfranogiad yn effeithiol. Er enghraifft, efallai mai canlyniad prosesau gwahardd systemig yw bod mewnfudwyr, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl mewn cymunedau difreintiedig, menywod, unigolion LHDTCRhA+, a phobl anabl yn cael eu heithrio neu eu hymyleiddio o gymdeithas a gwleidyddiaeth. Gallai gwella hygyrchedd wrth bleidleisio, megis drwy bleidleisio'n gynnar, leihau rhwystrau unigol i bleidleisio, ond nid ydynt yn dileu rhesymau systemig sy'n cyfrannu at beidio ag arfer pleidleisio.

Mae'n bwysig hefyd fod ffactorau gweinyddol sy'n effeithio ar ymddygiad pleidleisio, megis a ganiateir pleidleisio'n gynnar, yn croestorri â'r ffactorau systemig a amlinellir uchod yn ogystal â ffactorau eraill a drafodir yn yr adroddiad hwn – gan gynnwys nodweddion personol (e.e., mynediad at addysg ffurfiol) a nodweddion eraill sy'n ymwneud â gweinyddu pleidleisio (e.e., lleoliad y safle pleidleisio). Mae'n aneglur sut mae pleidleisio cynnar yn effeithio ar ymddygiad pleidleisio pan ystyrir y ffactorau hyn gyda'i gilydd.

Pleidleiswyr oedrannus ac ifanc

Lle mae pleidleisio cynnar ar gael, dangosir ei fod yn cael effaith gryfach ar bensiynwyr, sy'n fwy tebygol o bleidleisio'n bersonol cyn y diwrnod pleidleisio (Neeley a Richardson, 2001; Blais et al., 2007; Gronke a Toffey, 2008; Blitzer, 2010; McAllister a Müller, 2018; Sheppard a Beauregard, 2018). Fodd bynnag, pleidleiswyr oedrannus sydd fwyaf tebygol o bleidleisio'n gyffredinol o'u cymharu â grwpiau oedran eraill, maen nhw'n dilyn gwleidyddiaeth yn fwy, ac mae ganddynt gysylltiadau cryfach â'r pleidiau.



Yn etholiadau Sweden rhwng 2006-2018, am bob cynnydd o 1% yn lefel y pleidleiswyr 65+ oed, cafwyd cynnydd o 1.17% mewn pleidleisio cynnar. Fodd bynnag, pan brofwyd hynny gyda natur wledig a dwysedd (y safleoedd pleidleisio a oedd ar gael fesul ardal), aeth oedran yn llai perthnasol (Högström, 2020).

Mae sawl rheswm pam y gallai pobl oedrannus fanteisio ar bleidleisio cynnar. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith bod pensiynwyr yn tueddu i fod yn bleidleiswyr mwy profiadol ac efallai y byddai'n well ganddynt osgoi gorsaf bleidleisio brysur drwy bleidleisio'n gynnar. Hefyd, gallai'r ffaith bod pleidleisio cynnar effeithio ar grwpiau gwahanol o bleidleiswyr yn seiliedig ar yr amser rhydd sydd ganddynt.



Yn etholiadau Awstralia yn 2013, roedd y pleidleisio cynnar yn amrywio rhwng 16% a 19% ymhlith y rhai 60+ oed ac 11-12% ymhlith y rhai 18-44 oed (Rojas a Müller, 2014).

Mae pleidleiswyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi datblygu'r arfer o bleidleisio ac, mewn lleoliad lle mae pleidleisio cynnar wedi dod yn norm, o gyfuno'r arferion hynny. Hefyd, mae ymdrechion i ysgogi gan bleidiau neu weinyddwyr etholiadol yn fwy addas i bleidleiswyr oedrannus, gyda chlodiant yn cael ei ddarparu i/o orsafoedd pleidleisio, a gorsafoedd pleidleisio mewn cartrefi gofal (Fullmer, 2015b; Galicki, 2017; Garnett, 2019). Yn benodol, ceir tystiolaeth bod gan leoliadau sydd â nifer uwch o bensiynwyr ragor o orsafoedd pleidleisio (Fullmer, 2015b).

Mewn dadansoddiad rhyngwladol o sawl etholiad (1999-2015), y tebygolrwydd bod pleidleiswyr 66+ oed yn pleidleisio'n gynnar oedd (Garnett, 2019):



Canada >10%



Yr Almaen >35%

Y Ffindir >40%



Y Swistir >50%

Ar gyfer pleidleiswyr iau, mae **dulliau wedi'u targedu** i hwyluso pleidleisio cynnar wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol (Finseraas a Vernby, 2014; Quilan, 2015). Mae'r rhain yn cynnwys cludiant i fyfyrwyr, diwrnodau pleidleisio sy'n ymwybodol o amserlenni prifysgolion (fel pleidleisio ar benwythnosau), a lleoli gorsafoedd pleidleisio lle mae pobl ifanc yn tueddu i fyw. Treialwyd pleidleisio ar benwythnosau i fanteisio ar y ffaith bod myfyrwyr gartref i bleidleisio gyda'u teuluoedd, ond ni chafodd hyn effaith arwyddocaol ar y nifer a bleidleisiodd (Quilan, 2015).

Addysg, diddordeb gwleidyddol, ac incwm

Mae nodweddion pleidleiswyr fel addysg, gwybodaeth a/neu ddiddordeb gwleidyddol, incwm ac oedran yn tueddu i orgyffwrdd, a dangoswyd bod pob un ohonynt yn dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio. Yn gyffredinol, cymerir bod addysg ffurfiol yn golygu bod rhywun yn gallu deall y broses wleidyddol. Mae diddordeb gwleidyddol a gwybodaeth wleidyddol yn ddau newidyn sy'n aml yn cael eu cyfuno, er eu bod yn golygu pethau gwahanol. Dadleuir bod dinasyddion hŷn yn fwy cysylltiedig yn gymdeithasol na dinasyddion iau, ac felly bod ganddynt ragor o ddiddordeb mewn

gwleidyddiaeth (Neeley a Richardson, 2001). Mae dinasyddion hefyd yn fwy tebygol o bleidleisio os ydynt yn teimlo eu bod yn cymryd rhan a bod eu pleidlais yn bwysig.

Mae'r dystiolaeth yn cyflwyno canlyniadau cymysg o ran effaith pleidleisio cynnar ar draws grwpiau gwahanol o bleidleiswyr. Mae rhai astudiaethau wedi dangos bod pleidleiswyr cynnar yn tueddu i fod â rhagor o ddiddordeb gwleidyddol (Blais a Dobrynska, 2007; Gronke a Toffey, 2008; Stein, 1998) tra nad yw astudiaethau eraill yn dangos unrhyw wahaniaeth o ran diddordeb gwleidyddol pleidleiswyr cynnar a rhai nad ydynt yn bleidleiswyr cynnar (Garnett, 2019; Sheppard a Beauregard, 2018).

Mae rhai ymchwilwyr yn awgrymu y gallai unigolion sydd â llai o flynyddoedd o addysg ffurfiol deimlo eu bod wedi'u hymyleiddio a'u heithrio o wleidyddiaeth, tra mae eraill yn ei gymryd i olygu nad ydynt yn deall nac yn dilyn y pwnc yn llawn (Garnett, 2019; Högström, 2020). Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad fel arfer rhwng lefel uwch o addysg ffurfiol¹ ag incwm uwch a rhagor o ddiddordeb gwleidyddol, a mwy o debygolrwydd o bleidleisio (Gronke a Toffey, 2008; Miller a Powell, 2016).

Mae effaith pleidleisio cynnar ar bobl â lefelau gwahanol o addysg ffurfiol yn gymysg. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn dangos effaith negyddol ar y rhai sydd â llai o flynyddoedd o addysg ffurfiol (Blais et al., 2007; Finseraas a Vernby, 2014) tra nad yw ymchwil arall wedi canfod unrhyw effaith (Fullmer, 2015a; Garnett, 2018a; McAllister a Müller, 2018; Stein, 1998). Mae hyn yn awgrymu nad oedd yr astudiaethau hyn naill ai'n gallu gwahanu effaith gwahanol newidynnau neu fod gwahaniaethau cyd-destunol yn cyfrannu mwy at y tebygolrwydd o bleidleisio'n gynnar na lefelau addysg.

Mae'r dystiolaeth ar bleidleisio cynnar ac incwm hefyd yn gymysg. Yn Awstralia, daw'r rhan fwyaf o bleidleisiau cynnar (gan gynnwys pleidleisiau drwy'r post) gan bobl o incwm cyfartalog (Rojas a Müller, 2014). Gwelodd astudiaethau eraill nad oedd fawr ddim gwahaniaeth neu ddim gwahaniaeth o gwbl mewn pleidleisio cynnar oherwydd incwm (Neely a Richardson, 2001; Gronke a Toffey, 2008; Högström, 2020).

Pobl anabl ac unigolion â chyflyrau meddygol

Yn gyffredinol, mae pobl anabl yn cael eu hymyleiddio o wleidyddiaeth (Priestly et al., 2016) ac mae angen cydnabyddedig am ehangu cyfleoedd i gymryd rhan. Mae materion hygyrchedd yn effeithio ar y rheini, er enghraifft, sy'n ddall, yn fyddar, sydd ag anableddau gwybyddol, neu sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae diffyg

¹ Mae sut mae 'lefel addysg' yn cael ei mesur yn amrywio rhwng astudiaethau, sy'n cynnwys y radd uchaf a gyflawnwyd, nifer y blynyddoedd yn yr ysgol, neu a oedd gan yr unigolyn radd prifysgol (ai peidio).

ymwybyddiaeth o anghenion hygyrchedd neu ddiffyg ddarpariaeth ar eu cyfer – er enghraifft, bu i gynllun peilot etholiadol, a oedd yn cynnwys mesurau hygyrchedd, rwystro'r fynedfa a'r lleoedd parcio i gadeiriau olwyn (cynllun peilot etholiadol Cyngor Bwrdeistref Broxbourne, 2006).² Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddull pleidleisio hygyrch³ ar gyfer pleidleiswyr dall a phobl â nam ar eu golwg yn y DU.⁴ Mae hyn yn dynodi bod angen rhoi cyfrif am bob profiad posibl er mwyn sicrhau bod gan bob pleidleisiwr yr un mynediad at y bwth pleidleisio.

Yn yr un modd â'r henoed, gall unigolion sydd â chyflyrau meddygol ac anafiadau, neu bobl feichiog neu anabl, ddefnyddio mesurau pleidleisio cynnar i gynllunio eu pleidleisio'n haws ac i fanteisio ar y ffaith bod llai o giwiau ac amseroedd tawelach. Mae'r gwledydd sydd â hawliau gorfodol sy'n caniatáu i'r bobl hyn (yn ogystal â'r henoed) sgipio ciwiau wedi gwella eu profiad diwrnod pleidleisio.⁵

Canfu astudiaeth gymharol o wledydd Ewrop fod gwledydd â lefelau iechyd is yn fwy tebygol o weithredu mesurau pleidleisio cyfleus, gan gynnwys pleidleisio cynnar. Cyflwynodd yr astudiaeth faterion data, heb unrhyw ganlyniadau pendant ynghylch a yw pobl â salwch wedi'i hunangofnodi yn defnyddio pleidleisio cynnar yn amlach na'r rhai oedd yn iach (Wass et al., 2017). Mae pobl anabl yn yr Unol Daleithiau yn pleidleisio ar gyfraddau is na phobl heb anabledau, ond mae'r cyfraddau'n cynyddu mewn taleithiau lle mae'n haws pleidleisio drwy'r post (Miller a Powell, 2016).⁶

Ychydig iawn o astudiaethau sy'n canolbwyntio ar arferion pleidleisio pobl anabl, yn enwedig ar ôl i ni ystyried yr anghenion niferus a all fod gan unigolion. Drwy wneud pleidleisio mor hawdd, mor gyfleus ac mor hygyrch â phosibl, bydd cynnwys opsiwn pleidleisio cynnar yn helpu i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y grŵp hwn yn pleidleisio.

² Roedd *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000* yn galluogi cynghorau i ddatblygu eu cynlluniau peilot etholiadol eu hunain drwy 2000 a 2007. Digwyddodd cynllun peilot Cyngor Bwrdeistref Broxbourne mewn ymateb i'r cyfle hwn a threalodd bleidleisio cynnar, gyda mesurau hygyrchedd yn rhan o'r safleoedd pleidleisio cynnar.

³ Ers dyfarniad gan yr Uchel Lys Cyfiawnder yn 2019, canfuwyd bod Dyfeisiau Pleidleisio Cyffyrddadwy wedi dileu hawl person i gael pleidlais gyfrinachol (RNIB, 2019).

⁴ Mae 17,000 o unigolion â nam ar eu golwg wedi'u cofrestru yng Nghymru:
<https://www.rnib.org.uk/professionals/knowledge-and-research-hub/key-information-and-statistics>

⁵ Brasil, Cyfraith 10048/2000; Archddyfarniad 5296/2004; Cyfraith 10741/2003 (Bil Hawliau'r Henoed); Portiwgal, Archddyfarniad-Cyfraith 58/2016.

⁶ Mae dau fath o bleidleisio drwy'r post yn yr achos hwn: pleidleisio absennol, y mae angen i bleidleiswyr gofrestru ar ei gyfer, gyda rhai taleithiau'n caniatáu rhesymau penodol yn unig dros bleidleisio absennol; a phleidleisio drwy'r post, sef taleithiau sydd â system reolaidd ar gyfer pleidleisio drwy'r post.

Pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

Ar yr Unol Daleithiau y mae'r dystiolaeth ynghylch y berthynas rhwng pleidleisio cynnar a hil/ethnigrwydd yn canolbwyntio'n bennaf. Mae'n dangos cysylltiad rhwng diddordeb, ysgogi a phleidleisio cynnar, gyda nifer ystadegol arwyddocaol uwch o bobl ddu yn pleidleisio'n gynnar yn etholiad Obama o'i gymharu â phleidleiswyr gwyn (Bitzer, 2010). Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiad hwn wedi'i ailadrodd mewn astudiaethau nad ydynt yn ystyried ysgogi/diddordeb. Mae hyn yn awgrymu i bresenoldeb ymgeisydd arlywyddol du ysgogi pobl ddu i bleidleisio'n gynnar (Stein, 1998; Neely a Richardson, 2001). Yn Sweden, mae pleidleisio cynnar yn gysylltiedig â chyfranogiad uwch gan 'bleidleiswyr a anwyd dramor' – mae cynnydd o 10% yn y boblogaeth hon o bleidleiswyr yn gweld cynnydd o 2.9% mewn pleidleisio cynnar (Högström, 2020). Ni all yr astudiaeth ond dyfalu ynghylch yr esboniadau am hyn, gan gynnwys mwy o ysgogi grwpiau penodol.

Gweithwyr

Mae darpariaeth bleidleisio cynnar yn golygu mwy o hyblygrwydd i bleidleisio i'r rhai sy'n gweithio. Ni fydd pleidleisio ar benwythnosau neu wyliau yn gyfleus i bob pleidleisiwr sy'n gweithio, sy'n golygu y gall pleidleisio cynnar ymdrin â'r bwlch hwn (McAllister a Müller, 2018). Yn Awstralia, lle mae'r diwrnod pleidleisio ar ddydd Sadwrn a lle mae pleidleisio'n orfodol, mae pleidleiswyr cynnar yn cynnwys 'gweithredwyr peiriannau, gweithwyr, gweithwyr cymunedol a gwasanaethau personol, a thechnegwyr a gweithwyr masnach', gyda gweithwyr 9 i 5 yn fwy tebygol o bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad (Sheppard a Beauregard, 2018, t. 124).

Pleidleisio ar ddiwrnod gorffwys

Mae pleidleisio ar ddiwrnod gorffwys yn cyfeirio at bleidleisio ar y penwythnos neu mewn rhai achosion, bod y diwrnod pleidleisio'n cael ei wneud yn wyliau. Mae'r dystiolaeth ynghylch effaith pleidleisio ar y penwythnos ar y nifer a bleidleisiodd yn gymysg ac yn amrywio ar draws gwledydd (Massicote et al., 2004; Quinlan, 2015). Mewn rhai gwledydd, ystyrir etholiadau'n fwy eglur fel digwyddiadau diwylliannol pwysig, ac mewn gwledydd eraill ceir canfyddiad mai 'gwaith' yw pleidleisio ac mai 'hwyl' yw'r penwythnos, sy'n gallu ymddieithrio pleidleiswyr.

Mae gwledydd sydd wedi newid i ddiwrnod pleidleisio ar ddiwrnod gorffwys wedi tueddu i gyfuno hynny â newidiadau eraill, felly mae'n anodd edrych ar yr effaith ar bleidleisio (Neeley a Richardson, 2001). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o wledydd yn y byd yn defnyddio penwythnosau (naill ai dydd Sadwrn neu ddydd Sul), fel diwrnodau pleidleisio (Calendr Etholiadau NDI).

Lleoliad

Mae'r llenyddiaeth ar y gwahaniaethau rhwng pleidleiswyr gwledig a threfol yn dangos bod y **pellter a deithiwyd** a'r **dwysedd** o ran nifer y lleoedd pleidleisio mewn ardal yn ddau ffactor sy'n helpu i benderfynu a yw pleidleiswyr yn dewis pleidleisio cynnar.

Prin yw'r astudiaethau yn y maes hwn, ond nid ydynt yn dangos fawr o wahaniaeth rhwng pleidleiswyr trefol a gwledig o ran defnyddio pleidleisio cynnar (Blais et al., 2007; Finseraas a Vernby, 2014). Gallai hyn fod oherwydd bod y pleidleisio cynnar sydd ar gael ar gyfer y grwpiau hyn yn rhoi mynediad cyfartal at y broses (Fullmer, 2015a; 2015b). Enghreifftiwyd hyn yn achos diwygiadau ym Mhortiwgal a oedd yn cynyddu mynediad at bleidleisio cynnar ond yn lleihau nifer y safleoedd pleidleisio ar gyfer ardaloedd gwledig, gan effeithio'n negyddol ar y pleidleiswyr hynny (Heinmaa a Kalandadze, 2021). Bydd ffactorau ymddygiadol eraill yn cael effaith hefyd – er enghraifft, yn Sweden, awgrymir bod pleidleiswyr gwledig yn tueddu i 'gyfuno' pleidleisio â gweithgareddau eraill, ac felly'n fwy tebygol o bleidleisio'n gynnar am y rheswm hwnnw (Högström, 2020).

Dengys astudiaethau eraill, sy'n canolbwyntio ar bellter a rhwyddineb mynediad, fod y rhain, yn gyffredinol, yn ffactorau perthnasol y mae pleidleiswyr yn eu hystyried wrth benderfynu a fyddant yn pleidleisio ai peidio.



Canfu astudiaeth yn Nenmarc fod unigolion sy'n byw 5km i ffwrdd o'u gorsaf bleidleisio 10% yn llai tebygol o bleidleisio na phobl sy'n byw llai nag 1km i ffwrdd; mae hanner y gwahaniaeth hwnnw eisoes i'w weld ar y pwynt >1-1.2km (Bhatti, 2012).



Canfu arbrawf naturiol yn Sir Pierce, Talaith Washington fod cael blychau pleidleisio yn nes at bleidleiswyr yn cynyddu'r nifer a bleidleisiodd i'r pleidleiswyr hynny 0.64%, heb unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar draws grwpiau demograffig-gymdeithasol (McGuire et al., 2020).



Canfu astudiaeth ar etholiadau Sweden fod cynnydd mewn un safle pleidleisio fesul 1,000 o bleidleiswyr wedi cynyddu'r pleidleisio cynnar 3.6% (Högström, 2020).

Trafodaeth a chrynodeb

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos mai mân ganlyniadau cadarnhaol y mae pleidleisio cynnar yn eu cael ar y nifer sy'n pleidleisio, ond gall wella'r profiad i ddinasyddion o ran dewis pleidleisio, o ystyried cyfrifoldebau gwaith a gofal (Neeley a Richardson, 2001). Grwpiau ymylol y mae'r materion rhyngberthynol hyn yn effeithio arnynt fwyaf (h.y., oriau gwaith anarferol a gofal) a nhw sydd fwyaf tebygol o elwa o fesurau i gynyddu cyfranogiad etholiadol.

Efallai fod y diffyg cysondeb yn y sylfaen dystiolaeth o ganlyniad i natur gyd-destunol pob astudiaeth. Er enghraifft, efallai y bydd un astudiaeth yn canfod bod pleidleisio cynnar yn gysylltiedig â chyfranogiad uchel gan bleidleiswyr gwledig tra nad yw astudiaeth arall yn gwneud hynny. Gallai hyn adlewyrchu nifer y gorsafoedd pleidleisio sydd ar gael yn hytrach na'u lleoliad. Mae ymchwil wedi canfod y gall pleidleisio cynnar fod â photensial mawr i ysgogi pleidleiswyr, ond mae angen ei gyflwyno gyda mentrau eraill sy'n ystyried y cyd-destun a'r anghenion lleol, er mwyn gwireddu'r potensial hwn (Galicki, 2017). Er enghraifft, yn Seland Newydd, lle mae pleidleisio cynnar wedi bod yn gysylltiedig â chynnydd yn y nifer sy'n pleidleisio, credir mai'r cyfnod hir a ganiateir a'r ffaith bod modd cofrestru a phleidleisio ar yr un diwrnod sy'n gyfrifol am hyn (Garnett, 2018). Mae Ffigur 2 yn dangos potensial gwahanol fathau o strategaethau ysgogi ar gyfer pleidleisio'n gynnar.

Ffigur 2: Continwwm o weithdrefnau etholiadol ac effeithiau ysgogi

Math o ysgogi	Potensial dadysgogi ← → Potensial ysgogi						Rheoli gweinyddu
Symbylu/ gwelededd	Cyfnod pleidleisio cynnar hir – llai o ysgogiad ar ddiwrnod yr etholiad			Gwybodaeth am safleoedd pleidleisio cynnar/canolfannau pleidleisio wedi'i hanfon at bleidleiswyr	Dwysedd uchel a gwelededd uchel safleoedd pleidleisio cynnar/canolfannau pleidleisio		Effaith yn fwy dan reolaeth gweinyddiaeth etholiadol
Pleidleisio mympwyol	Cofrestru pleidleiswyr yn cau cyn bod pleidleisio'n gynnar yn dechrau	Mae pleidleisio cynnar yn gofyn am gais ymlaen llaw neu gyflawnhad	Mae pleidleisio cynnar yn gofyn am ID		Cofrestru'n bosibl ar yr un pryd ac yn yr un lleoliadau â'r pleidleisio	Cofrestru awtomatig, dim gofyniad am ID	
Targeddu gweithgareddau ysgogi yn gost-effeithlon	Dim gwybodaeth am bwy sy'n pleidleisio ble a phryd – mwy o ansicrwydd		Angen mynediad ymlaen llaw ac mae enwau'r bobl sydd wedi cofrestru i ddefnyddio dull penodol yn hysbys i ymgyrchoedd	Gwybodaeth am batrymau demograffig-gymdeithasol a daearyddol cyfanredol etholiadau'r gorffennol ar gael i ymgyrchoedd		Gwybodaeth arlefel unigol am bwy a bleidleisiodd eisoes ar gael i ymgyrchoedd	
Cyfleoedd gwell i ysgogi	Pleidleisio cynnar yn amodol ar yr un cyfyngiadau ymgyrchu â diwrnod yr etholiad					Caniateir gwyliau a gweithgareddau ymgyrchu wrth ymyl man pleidleisio cynnar	
Pwysau cymdeithasol	Posibl cuddio nad yw rhywun yn pleidleisio rhag y bobl sy'n adnabod y pleidleiswyr a rhag y gymdeithas			Gwybodaeth am y sawl sy'n pleidleisio ar gael i bobl sy'n adnabod y pleidleiswyr	Gwybodaeth arlefel unigol am bwy a bleidleisiodd eisoes ar gael i'r cyhoedd (ond gallai achosi adlach preifatrwydd)		Effaith yn llai dan reolaeth gweinyddiaeth etholiadol

Ffynhonnell: Galicki, 2017

Mae'n bosibl cael nifer is yn pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad oherwydd pleidleisio cynnar, ond y gyfradd gyffredinol o gyfranogiad ar y diwrnod pleidleisio a'r diwrnod pleidleisio cynnar gyda'i gilydd sy'n bwysig. Er mwyn osgoi ymgysylltu â phleidleiswyr sydd eisoes â diddordeb mewn pleidleisio cynnar, a sicrhau bod pleidleisio cynnar yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer anghenion pleidleiswyr sydd wedi'u hymyleiddio neu sydd wedi ymddieithrio, rhaid ystyried ffactorau rhyng-gysylltiol sy'n effeithio ar ymddygiad pleidleisio. Mae'n ofynnol ystyried materion fel:

- A yw'r safle pleidleisio wedi'i leoli'n gyfleus?
- Pa mor hir mae'n ei gymryd pleidleiswyr i gyrraedd y safle?
- Pa mor anodd yw'r daith (h.y., a oes angen iddynt gyfuno dulliau trafnidiaeth)?
- Pa fath o gostau teithio y byddant yn eu hysgwyddo?
- A fydd pleidleiswyr yn teimlo'n weddol ddiogel wrth deithio i'r safle pleidleisio ac oddi yno?
- Pa mor hir fydd y ciw, ac a fydd seddi ar gael?
- A yw'r safle'n hygyrch i bleidleiswyr sydd â phroblemau symudedd neu sydd ag anabledau?

Yn olaf, rhaid ystyried y ddadl y gall pleidleisio cynnar fod yn annemocrataidd hefyd, gan y bydd pleidleiswyr cynnar yn pleidleisio gyda llai o wybodaeth nag eraill, yn enwedig os yw'r cyfnod pleidleisio cynnar yn hir (Thompson, 2008). Felly, rhaid ystyried yn ofalus am ba mor hir y caiff pleidleisio cynnar ei ddarparu, a rhaid i fesurau fod ar waith i sicrhau y gall pleidleiswyr cynnar wneud penderfyniad yr un mor wybodus â phleidleiswyr nad ydynt yn bleidleiswyr cynnar.

Arferion etholiadol arloesol

Crynodeb

- Mae arferion etholiadol arloesol yn cynnwys pleidleisio drwy'r post, pleidleisio hyblyg, blychau pleidleisio electronig all-lein, ac arferion i wneud cofrestru'n haws ac yn fwy hygyrch.
- Nid yw'r dystiolaeth ynghylch y mathau hyn o arferion wedi dangos unrhyw effaith ar y nifer sy'n pleidleisio, na chanlyniadau cymharol gadarnhaol.
- Mae angen mwy o ymchwil i'r rhai nad ydynt yn pleidleisio yng Nghymru er mwyn deall y cymhellion y tu ôl i ymddygiad pleidleisio – mae'n annhebygol bod llawer o bleidleiswyr yn ymatal oherwydd diffyg cyfleustra.
- Dylid ystyried pleidleisio hyblyg fel ffordd o hwyluso profiad pleidleisio'r rhai sydd â phroblemau symudedd.
- Mater o arfer yw pleidleisio ac mae'r nifer sy'n manteisio ar bleidleisio drwy'r post yn ystod pandemig Covid-19 yn dangos bod pobl yn fwy tebygol o'i ddefnyddio oherwydd angen yn hytrach na dewis.
- Ymhlith y mesurau y gellir eu rhoi ar waith er mwyn lleihau cyfradd y pleidleisiau drwy'r post a ddifethwyd mae:
 - Creu ffyrdd i bleidleiswyr 'drwsio' pleidleisiau wedi'u difetha (e.e. gallu dychwelyd y bleidlais ar y diwrnod pleidleisio a phleidleisio'n bersonol)
 - Ymgyrchoedd mewn ysgolion a hysbysebion teledu i ddysgu pleidleiswyr sut i ddefnyddio eu pleidleisiau
 - Pleidleisiau wedi'u llenwi ymlaen llaw

Cwestiynau ymchwil

Adolygwyd y dystiolaeth ynghylch arferion etholiadol arloesol yn unol â'r pum cwestiwn ymchwil canlynol:

1. Pa dystiolaeth (os oes o gwbl) mai'r arfer etholiadol presennol yn y DU – yn hytrach na difaterwch pleidleiswyr neu ymatal bwriadol – sy'n atal cymryd rhan mewn etholiadau?

2. Pa ddatblygiadau arloesol y gellid eu cyflwyno i ymgysylltu â phleidleiswyr ac i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau? Sut y gall y rhain lywio'r weledigaeth ar gyfer cynlluniau peilot etholiadol yng Nghymru yn y dyfodol?
3. Sut y gellir hybu'r nifer sy'n manteisio ar bleidleisiau drwy'r post? Sut y gellir lleihau cyfradd y pleidleisiau drwy'r post sy'n cael eu difetha?
4. Sut y gallai fod yn bosibl caniatáu 'pleidleisio hyblyg' h.y. heb ei gyfyngu i un orsaf bleidleisio benodol?
5. Beth yw'r risgiau (os o gwbl) o ran twyll etholiadol a diogelwch datblygiadau arloesol o'r fath?

Cyflwyniad

Mae arferion etholiadol arloesol (y cyfeirir atynt weithiau hefyd fel trefniadau pleidleisio arbennig) yn ddulliau etholiadol sy'n wahanol i'r llwybr traddodiadol 'pleidleisiwr → safle pleidleisio → ciwio → papur pleidleisio → blwch'. Mae'r trefniadau hyn yn deall bod pleidleiswyr yn wahanol o ran sut maent yn byw ac yn pleidleisio ac maent yn ymdrechu i wneud cyfranogiad gwleidyddol a gweithdrefnau etholiadol yn haws ac yn fwy hylaw. Mae'r adrannau canlynol yn trafod y dystiolaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post, pleidleisio hyblyg, blychau pleidleisio electronig all-lein, a mesurau i wneud cofrestru'n haws ac yn fwy hygyrch.

Pleidleisio drwy'r post

Math o bleidleisio cynnar yw pleidleisio drwy'r post gan fod pleidleiswyr yn cyflwyno eu pleidleisiau cyn y diwrnod pleidleisio. Mae amrywiadau rhwng gwledydd ynghylch pryd y gellir anfon pleidleisiau drwy'r post i mewn, pwy sy'n gymwys i bleidleisio drwy'r post, ac a oes angen i bobl fod wedi'u cofrestru ar gyfer y dull pleidleisio hwn. Mae Ffigur 3 yn dangos gwledydd yn ôl a yw pleidleisio drwy'r post ar gael i bawb, neu wedi'i gyfyngu i ychydig o grwpiau gan gynnwys:

- **Y rhai sy'n byw pellter penodol o'r man pleidleisio agosaf** neu sy'n byw i ffwrdd o'r man pleidleisio a neilltuwyd (e.e., myfyrwyr neu bobl sy'n teithio)
- **Anabledd neu lesgedd**, gan gynnwys Covid-19
- **Pensiynwyr**
- **Pobl sydd wedi'u carcharu**
- **Gweithwyr shift**, gweision sifil, y Lluoedd Arfog
- **Pobl o gefndiroedd crefyddol** sy'n atal cymryd rhan ar y diwrnod pleidleisio

Ar gael i bawb Ar gael i rai

Fel y dengys Ffigur 3, mae pleidleisio drwy'r post ar gael i bob pleidleisiwr yn y DU. Mae cyfran y bobl sy'n defnyddio'r trefniant hwn wedi aros yn sefydlog dros amser (Ffigur 4). Yn bwysig, mae'r nifer sy'n pleidleisio yn uwch ymhlith y rhai sy'n pleidleisio drwy'r post na'r rhai sy'n pleidleisio'n bersonol (Tabl 1).

A bar chart comparing vaccination rates across four regions in Wales: Cymru, Lloegr, Yr Alban, and Gogledd Iwerddon. The y-axis shows percentages from 0% to 25%. Each region has three bars representing the years 2015 (dark blue), 2017 (medium blue), and 2019 (light blue). Data labels are provided above each bar.

Region	2015 (%)	2017 (%)	2019 (%)
Cymru	17.7%	19.4%	18.1%
Lloegr	16.7%	18.2%	17.6%
Yr Alban	17.6%	19.4%	18.1%
Gogledd Iwerddon	1.4%	1.9%	1.3%

Diwygio cyfraith ac arferion etholiadol

Tabl 1: Pleidleisio drwy'r post yn Etholiadau Cyffredinol y DU 2010-2019 – Canrannau a bleidleisiodd

Pleidleisio drwy'r post		Wyneb yn wyneb
2019	84.0%	64.5%
2017	85.1%	65.9%
2015	85.8%	63.2%
2010	83.2%	62.6%

Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol

Yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016, bu i 72.8% o'r rhai a ofynnodd am bleidlais drwy'r post ddychwelyd eu pleidleisiau. Roedd y rhain yn cyfrif am 27.7% o gyfanswm y pleidleisiau a fwrwyd (282,512 o bleidleisiau dilyn). Yn 2021, derbyniodd 458,928 o bobl bleidleisiau drwy'r post ond nid yw data ar faint a ddychwelwyd ar gael eto. Fodd bynnag, rhyddhaodd y Comisiwn Etholiadol adroddiad ar etholiadau 2021⁷ gyda'r casgliadau canlynol:

- Bu i 50% o bleidleiswyr drwy'r post wneud hynny am y tro cyntaf hynny oherwydd Covid-19
- Dewisodd 25% o bleidleiswyr drwy'r post am y tro cyntaf wneud hynny oherwydd cyfleustra
- Dywedodd 96% ei fod yn hawdd ei ddeall
- Ond roedd y pleidleiswyr y tro cyntaf (15%) a'r pleidleiswyr ifanc (16-34, 14%) yn fwy tebygol o ddweud ei fod yn anodd
- Roedd y gyfradd gwrthod yn 3.9% o'i gymharu â 3.2% yn 2016
- Roedd 10% o'r pleidleiswyr tro cyntaf yn anfodlon â'r broses (o'i gyferbynnu â 3% o'r pleidleiswyr mynych)
- Dywedodd 82% o'r pleidleiswyr tro cyntaf ei bod yn hawdd cael gwybodaeth gofrestru a dywedodd 75% yr un peth o ran sut i fwrw eu pleidlais
- Dywedodd 94% ac 88% o'r pleidleiswyr mynych yr un peth, yn y drefn honno

⁷ <https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/elections-and-referendums/past-elections-and-referendums/senedd-elections/report-may-2021-elections-wales#voting-at-the-elections>

Mae'r adborth gan y pleidleiswyr am y tro cyntaf a'r pleidleiswyr ifanc yn bryder ac mae'n awgrymu bod angen ystyried a oes modd gwella pa mor hawdd yw pleidleisio drwy'r post. O ystyried y posibilrwydd y gallai'r pleidleiswyr am y tro cyntaf fod yn fewnfudwyr oherwydd y newid yn ddiweddar o ran rhyddfrenio, dylid astudio'r mater hwn yn fwy gofalus.

Mae Tabl 2 yn dangos y nifer a bleidleisiodd drwy'r post yn Etholiad Cyffredinol 2019. Mae tua 65% o bobl yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd lle mae llai na 10,000 o bobl (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2008). Amlygwyd yn Nhabl 2 yr etholaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr ardaloedd mwyaf tenau eu poblogaeth yng Nghymru – Ceredigion, Ynys Môn, Gwynedd, a Sir Benfro. Mae'n ymddangos bod y data hyn yn dangos nad oes patrwm bod pleidleiswyr gwledig yn fwy tebygol o ddefnyddio pleidleisio drwy'r post.

Mae'r tabl yn dangos bod canran y pleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd yn yr etholiad hwn yn amrywio rhwng llai nag 1% i ychydig dros 5%. Mae Ffigur 5 yn amlinellu'r rhesymau dros wrthod pleidleisiau drwy'r post. Mae'n dangos bod gan 18% o bleidleiswyr broblem gyda llofnodion nad oedd yn cyfateb â'i gilydd a bod gan 31% ddyddiadau geni nad oedd yn cyfateb â'i gilydd. Efallai fod y gwallau hyn o ganlyniad i broblemau yn y gofrestr etholiadol ac i sut mae dinasyddion wedi'u cofrestru, yn ogystal â phleidleiswyr posibl sy'n gwneud camgymeriad ar y ffurflen (e.e., gan roi'r dyddiad cwblhau yn hytrach na'u dyddiad geni).


Tabl 2: Ystadegau pleidleisiau drwy'r post yn gysylltiedig â phleidleisiau dilys yng Nghymru – Etholiad Cyffredinol 2019

Etholaeth	Etholwyr	Pleid-leisiau dilys	% Pleidleisiau drwy'r post a gyhoeddwyd	% Pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd	% Pleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	57,419	71.41%	24.69%	84.66%	3.68%
Llanelli	60,518	63.18%	23.74%	81.45%	4.08%
Castell-nedd	56,419	65.15%	22.45%	82.86%	3.90%
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	59,158	71.19%	20.96%	83.84%	2.15%
Gogledd Caerdydd	68,438	76.95%	20.65%	88.41%	3.84%
Bro Morgannwg	76,508	71.64%	20.35%	83.63%	2.83%
Aberafan	50,750	62.26%	20.33%	81.58%	3.96%
Gŵyr	61,762	72.02%	20.11%	86.74%	2.13%
Ynys Môn	51,925	70.39%	19.39%	84.30%	1.19%
Mynwy	67,098	74.84%	19.28%	80.29%	2.72%
Preseli Sir Benfro	59,606	71.17%	19.26%	83.35%	2.07%
Ceredigion	56,250	71.30%	18.99%	79.69%	2.71%
Brycheiniog a Maesyfed	55,490	74.46%	18.89%	86.56%	1.15%
Torfaen	62,330	59.64%	18.83%	82.04%	2.61%
Pen-y-bont ar Ogwr	63,303	66.72%	18.78%	85.11%	0.83%
Blaenau Gwent	50,739	59.56%	18.56%	81.40%	2.14%
Rhondda	50,262	58.97%	18.41%	81.47%	4.44%
Dyffryn Clwyd	56,649	65.69%	18.25%	86.10%	1.63%
Arfon	42,215	68.87%	17.69%	85.27%	1.73%
Aberconwy	44,699	71.29%	17.67%	86.29%	1.29%
Gorllewin Abertawe	57,078	62.77%	17.48%	83.37%	3.50%

Cwm Cynon	51,134	59.13%	17.42%	83.24%	2.82%
Wrecsam	49,737	67.42%	17.38%	86.02%	2.04%
Caerffili	63,166	63.51%	17.32%	82.93%	1.33%
Gorllewin Caerdydd	68,508	67.40%	17.23%	84.43%	4.13%
Delyn	54,560	70.33%	17.11%	87.62%	1.82%
Gorllewin Clwyd	57,714	69.66%	16.97%	87.59%	0.90%
De Caerdydd a Phenarth	78,837	64.16%	16.85%	79.81%	3.17%
Pontypridd	60,327	64.75%	16.74%	83.78%	3.85%
Gorllewin Casnewydd	66,657	65.16%	16.72%	86.14%	1.88%
Dwyrain Abertawe	58,450	57.45%	16.54%	80.33%	2.36%
Alun a Glannau Dyfrdwy	62,789	68.50%	16.45%	86.45%	2.69%
Islwyn	55,423	61.98%	16.21%	78.72%	2.19%
Ogwr	57,581	61.46%	16.17%	82.61%	0.98%
Sir Drefaldwyn	48,997	69.83%	15.83%	81.01%	1.77%
De Clwyd	53,919	67.33%	15.82%	87.16%	2.04%
Merthyr Tudful a Rhymni	56,322	57.25%	15.13%	81.11%	0.36%
Dwyrain Casnewydd	58,554	61.96%	14.65%	86.03%	4.97%
Dwyfor Meirionnydd	44,362	67.46%	14.46%	84.60%	1.93%
Canol Caerdydd	64,037	65.31%	14.26%	84.97%	5.09%
<i>Cyfanswm</i>	<i>2,319,690</i>	<i>66.49%</i>	<i>18.10%</i>	<i>83.82%</i>	<i>2.52%</i>

Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol

Ffigur 5: Mathau o wallau ar bleidleisiau drwy'r post yn Etholiad Cyffredinol 2019



Ffynhonnell: yr awduron, gyda data gan y Comisiwn Etholiadol

Mae profiadau pleidleisio drwy'r post mewn gwledydd eraill yn gymharol galonogol gan eu bod yn gyffredinol yn dangos effaith gadarnhaol ar y nifer sy'n pleidleisio ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol (Bechtel a Schmid, 2016; Townsley a Turnbull-Dugarte, 2020). Defnyddir pleidleisio drwy'r post yn bennaf gan bobl sydd eisoes â diddordeb gwleidyddol neu sydd ei angen yn benodol, fel yr henoed, pobl mewn ardaloedd gwledig, pobl anabl neu, yn seiliedig ar y cynnydd yn nifer y pleidleiswyr post yng Nghymru yn etholiadau Cymru 2021 yn ystod y pandemig, pobl nad oeddent eisiau mynd i'r gorsafoddd pleidleisio oherwydd Covid-19. Dangosodd adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar gyfer etholiadau 2021 fod 96% o'r pleidleiswyr drwy'r post yn credu bod y broses yn syml, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith ar etholiadau yn y dyfodol.

Yn y Swistir, arweiniodd mynediad eang at bleidleisio drwy'r post at tua 80-90% o'r boblogaeth yn pleidleisio drwy'r post (Bechtel a Schmid, 2016; Musial-Karg a Mickiewicz, 2016). Dengys ymchwil sy'n cymharu cantonau'r Swistir a'u defnydd o bleidleisio drwy'r post gynnydd mwy yn y nifer a bleidleisiodd mewn cantonau a oedd yn arfer dangos nifer is o bleidleiswyr yn gyffredinol (Luechinger et al., 2007).

Drwy gadw cofrestr bleidleisio drwy'r post barhaol (sy'n golygu nad oedd angen i bleidleiswyr ofyn am bleidleisiau post ym mhob etholiad), yn ogystal â phleidleisio wyneb yn wyneb, cynyddodd y nifer a bleidleisiodd rhwng 2.4% a 5% yn Colorado,

UDA. (Menger et al., 2015). A chanfu ymchwil arall fod pleidleisiau a lenwyd ymlaen llaw⁸ hefyd yn cynyddu'r nifer a bleidleisiodd (Hassel, 2017).

Tystiolaeth o gynlluniau peilot y DU

Rhwng 2000 a 2007, cynhaliodd nifer o awdurdodau lleol y DU gynlluniau peilot gweinyddu etholiadol a oedd yn cynnwys **pleidleisio cynnar** a **phleidleisio drwy'r post yn unig**⁹ a mesurau eraill, fel y nodir yn Nhabl 3. Er bod tystiolaeth bod cynnydd o 50% yn nifer y bobl a bleidleisiodd mewn rhai cynlluniau peilot pleidleisio drwy'r post (James, 2011), cyfyngedig oedd y dadansoddiad o effaith gyffredinol y trefniant hwn (gan ystyried pob cynllun peilot yn yr astudiaeth) ar y nifer a bleidleisiodd (Rallings et al., 2010). Cynhaliwyd pleidleisio cynnar a phleidleisio drwy'r post ochr yn ochr â chynlluniau peilot eraill, gan rwystro gwerthusiad digonol o'u heffeithiau annibynnol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth bod pleidleiswyr heb geir yn fwy tebygol o ddefnyddio pleidleisio drwy'r post. Er bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynlluniau peilot yn isel, dangosodd y canlyniadau, o'u cymharu â dulliau eraill sydd ar gael (y rhyngwrwyd, y teledu, y ffôn), mai pleidleisio drwy'r post oedd yr un yr oedd pobl yn ymddiried ynddo fwyaf, gan ddibynnu ar arferion sydd eisoes yn y boblogaeth. Gallai pleidleisio drwy'r post yn gyffredinol fod yn gymhellant mawr i bleidleiswyr sy'n ymgysylltu llai, ond mae'r Comisiwn Etholiadol (2006) yn dadlau dros gadw'r dewis.



Canfu'r Comisiwn Etholiadol (2004; 2014) fod:

- Dwywaith yn fwy o bobl yn fodlon â phleidleisio drwy'r post yn unig gyda'r rhan fwyaf yn nodi ei fod yn gyfleus.
- Fodd bynnag, roedd pleidleisio drwy'r post ar alw a phleidleisio drwy'r post yn unig yn dioddef o **wendidau canfyddedig o ran gonestrwydd y pleidleisio**. Roedd y farn hon yn fwy cyffredin mewn unigolion y mae'n well ganddynt bleidleisio wyneb yn wyneb.

⁸ Mae'r rhain yn dod wedi'u llenwi ymlaen llaw â gwybodaeth y pleidleiswyr a'r etholiad, a'r cyfan y mae'n rhaid i'r pleidleiswyr ei wneud yw dewis ymgeisydd(ymgeiswyr) neu fater(ion).

⁹ Mae pleidleisio drwy'r post yn unig yn golygu nad oes pleidleisio wyneb yn wyneb o gwbl.

Tabl 3: Cynlluniau peilot a ddefnyddiwyd yn y DU 2000–2007

Etholiad	Newidiadau a gychwynnwyd mewn gweithdrefnau
Etholiadau Lleol Lloegr Mai 2000	Pleidleisio ar benwythnosau, dosbarthu gohebiaeth etholiad am ddim, pleidleisio cynnar, cyfrif electronig, ymestyn yr hawl i bleidlais drwy'r post, pleidleisio drwy'r post yn unig, estyn oriau pleidleisio, cyfleuster pleidleisio symudol
Etholiadau Meiri Lloegr 2001	Etholiadau drwy'r post yn unig
Etholiadau Cyngorau Lleol a Meiri Lloegr Mai 2002	Pleidleisio drwy'r post yn unig, cyfrif electronig, pleidleisio cynnar, aml-sianel, ffôn, SMS, a phleidleisio electronig o bell
Cyngorau Lleol Lloegr Mai 2003	Cyfrif electronig, pleidleisio drwy'r post yn unig, y rhynggrwyd, SMS, ffôn, ciosg, oriau pleidleisio
Etholiadau Ewrop ac Etholiadau Lleol Lloegr Mehefin 2004	Etholiadau drwy'r post yn unig mewn pedwar rhanbarth
Etholiad Cyffredinol Mai 2005	Pleidleisio drwy'r post cyffredinol ar alw
Etholiadau Lleol Lloegr Mai 2006	Pleidleisio ymlaen llaw a chyfrif electronig, ynghyd â newidiadau gweinyddol eraill
Etholiadau Lleol Lloegr Mai 2007	Cyfrif electronig, pleidleisio ymlaen llaw, pleidleisio ar y rhynggrwyd, llofnodi i gael papurau pleidleisio

Ffynhonnell: James, 2011.

Ceir tystiolaeth y gall pleidleisio drwy'r post a mesurau eraill fod yn gynhwysol iawn i'r rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae ymchwili wedi dangos bod 69% o safleoedd pleidleisio Prydain yn anhygyrch ar ryw ffurf (Morris et al., 2002), a gall pleidleisio drwy'r post, ar y rhynggrwyd, dros y ffôn a thrwy SMS liniaru'r broblem honno, a hynny drwy roi hyblygrwydd i bleidleiswyr o ran sut y maent yn pleidleisio. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch preifatrwydd pleidleiswyr yn rhwystro'r cam o fabwysiadu'r dulliau amgen hyn.

Pleidleisio hyblyg

Diffinnir pleidleisio hyblyg fel pleidleisio wyneb yn wyneb y tu allan i orsaf bleidleisio ddynodedig. Fodd bynnag, gall fod ar sawl ffurf wahanol gan gynnwys:

- Pleidleisio wrth deithio – wrth deithio o fewn y wlad
- Pleidleisio dramor – pleidleisio wrth deithio neu fyw mewn gwlad arall
- Pleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn y wlad
- Pleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol

Pleidleisio dramor yw'r math mwyaf cyffredin o bleidleisio hyblyg gyda 177 o wledydd yn ei ganiatáu i ryw raddau (rhai dinasyddion; pob dinesydd mewn rhai etholiadau; pob dinesydd mewn rhai lleoliadau; neu bob dinesydd ym mhob etholiad).¹⁰

Ymhlith y datblygiadau arloesol sydd wedi deillio o drefniadau pleidleisio hyblyg mae **Canolfannau Pleidleisio Diwrnod yr Etholiad** (EDVCs), **safleoedd pleidleisio heb fod yn draddodiadol**, a **phleidleisio symudol**. Mae'r holl fesurau pleidleisio hyblyg hyn yn ceisio cynyddu mynediad pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio a'u cyfleoedd i bleidleisio, drwy ganiatáu i bleidleiswyr gynnwys pleidleisio yn eu bywydau o ddydd i ddydd a gwneud y broses yn haws iddynt. Opsiwn arall yw estyn oriau pleidleisio, sy'n golygu bod gorsafoedd pleidleisio yn aros ar agor y tu hwnt i oriau masnachol. Prin yw'r astudiaethau ar effaith oriau estynedig – yn Awstria canfuwyd bod hyn yn cynyddu'r nifer a bleidleisiodd (Potrafke a Roesel, 2020), ond ni wnaeth yn Iwerddon (Quilan, 2015). Cafwyd rhai canlyniadau rywfaint yn gadarnhaol mewn cynlluniau peilot yn Lloegr (James, 2011). Mae'r oriau pleidleisio yng Nghymru rhwng 7am a 10pm, sy'n rhoi digon o amser i bleidleiswyr gael mynediad i'w gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, cafwyd adroddiadau am giwiau hir yn etholiad 2021.¹¹

¹⁰ Trafodwyd rhai o effeithiau pleidleisio hyblyg o dan 'Lleoliad' yn yr adran Pleidleisio Cynnar. Mae hyn oherwydd bod pleidleisio hyblyg yn golygu gwneud pellteroedd yn fwy hylaw i bleidleiswyr, gan fod ganddynt ragor o reolaeth dros ble maent yn pleidleisio.

¹¹ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-56766948>



Mae **EDVCs** yn cael eu gosod yn strategol i hwyluso pleidleisio ac i 'fynd ar negeseuon' (Galicki, 2017). Gallant fod wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer pleidleisio cynnar neu beidio (Fullmer, 2015b; Galicki, 2017). Mae'r dystiolaeth yn gymysg gyda chynnydd bach yn y nifer a bleidleisiodd (Stein a Vonnahme, 2008; 2012) a gyda phleidleiswyr yn adrodd am brofiadau pleidleisio gwael (Chen et al., 2021).



Mae **safleoedd pleidleisio heb fod yn draddodiadol** yn cyfeirio at orsafoedd pleidleisio mewn lleoliadau lle mae pobl yn cynnal gweithgareddau eraill, megis archfarchnadoedd, swyddfeydd post, neu ysgolion (Stein, 1998; Finseraas a Vernby, 2014). Prin yw'r dystiolaeth ynghylch canlyniadau'r lleoedd pleidleisio hyn ac mae pryderon logistaidd a diogelwch y mae'n rhaid eu hystyried, megis diogelwch y gweithwyr pleidleisio, y pleidleiswyr a'r blychau pleidleisio, a sut y bydd y lleoedd hyn yn gweithredu ochr yn ochr â threfniadau pleidleisio eraill (h.y. ai dim ond y myfyrwyr a fyddai'n cael pleidleisio yn yr ysgol?)



Gyda **phleidleisio symudol** mae gorsafoedd pleidleisio'n cael eu gosod mewn lleoliadau lle nad yw hi'n hawdd i bobl ymadael, fel preswylwyr mewn cartrefi gofal, cleifion mewn ysbytai, a charcharorion yn y system garchardai. Hefyd, gall y rhain fod ar gael i'r unigolion sy'n gweithio yn y sefydliadau hyn. Gall gorsafoedd symudol unigol fynd i gartrefi pobl hefyd. Gall pleidleisio symudol fod yn fath o bleidleisio cynnar. Mae chwe deg pedair o wledydd yn cynnig hyn ar ryw ffurf; gall wneud pleidleisio'n haws, ond i unigolion y mae arnynt ei angen yn eu cartrefi, mae'n ofynnol cyn-gofrestru bob amser, a all gynyddu costau cymryd rhan i'r pleidleisiwr.



Wrth **estyn oriau pleidleisio** mae gorsafoedd pleidleisio'n aros ar agor y tu hwnt i oriau busnes.

Blychau pleidleisio electronig all-lein

Dibynna pleidleisio electronig all-lein ar flychau pleidleisio mecanyddol nad ydynt wedi'u cysylltu ag unrhyw rwydweithiau ether-rwyd, wi-fi neu Bluetooth (gweler Ffigur 6). Brasil yw'r wlad fwyaf adnabyddus i ddefnyddio'r dull pleidleisio hwn, yn rhannol ers 1996 ac yn llawn ers 2000. Gan fod y blychau pleidleisio'n rhai all-lein ac yn gweithredu'n unigol, byddai angen i dwyllwyr etholiad fod yn bresennol yn gorfforol ym mhob un safle pleidleisio ar yr un pryd er mwyn ceisio hacio etholiad.

O ran cynwysoldeb, mae'r dyfeisiau hyn yn arloesol iawn:

- Mae'r bysellbad yn defnyddio rhifau a braille .
- Mae ganddo hysbysiadau sain sy'n rhoi gwybod i bleidleiswyr pa fotwm y maent yn ei wthio a phryd y maent wedi gorffen pleidleisio.
- Mae delweddau'n ymddangos ar y sgrin sy'n dangos yr ymgeiswyr a ddewiswyd gan y pleidleisiwr.

Caiff pleidleisiau eu cyfrif yn awtomatig yn y fan a'r lle, gyda phum derbynneb yn cael eu hargraffu ar ddiwedd y pleidleisio. Yna, mae cof pob blwch pleidleisio yn cael ei gludo i'r un lleoliad i'w ddilysu a'i gysylltu â chyfrifiadur canolog yr Uwch Lys Etholiadol. Adroddir ar y canlyniadau swyddogol cyn pen ychydig oriau ar gyfer y wlad gyfan.

Mae'r system hon wedi dileu twyll etholiadol yn y wlad, wedi lleihau ciwiau gorsafoedd pleidleisio i ychydig funudau yn unig, ac wedi galluogi pleidleiswyr anabl a phleidleiswyr ag anawsterau dysgu i gymryd rhan lawn mewn etholiadau. Mae hefyd yn hwyluso cyfrif pleidleisiau, cadw cofnodion, a chynnal a chadw data a mynediad atyn nhw. Trafodir hyn mewn adran ddiweddarach sy'n ymdrin ag ariannu ymgyrchu a'r gwariant arnynt.

Ffigur 6: Blwch pleidleisio electronig all-lein Brasil




Ffynhonnell: Uwch Lys Etholiadol Brasil

Gwneud cofrestru'n haws ac yn fwy hygyrch

Mae cofrestru i bleidleisio yn orfodol yn y DU, gyda bygythiad o ddirwy, ond yn anaml y caiff hyn ei orfodi. Yn enwedig gyda phoblogaethau sydd newydd gael y bleidlais, fel pobl ifanc 16-17 oed a dinasyddion tramor cymwys sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru, mae'n hollbwysig sicrhau eu bod yn deall ac yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y broses. Fel y dengys Ffigur 7, nid oes tuedd glir o ran a yw cofrestru gorfodol ar ei ben ei hun yn hybu'r nifer sy'n pleidleisio.

Mae **cofrestru treigl** hefyd ar gael yng Nghymru, sy'n golygu y gall dinasyddion gofrestru i bleidleisio ar unrhyw adeg. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi adrodd am faterion yn ymwneud â rheoli cofrestriadau ynghylch 'adegau prysur', hynny yw, pan fydd etholiadau ar fin digwydd neu pan fydd gwleidyddion yn galw ar ddinasyddion i gofrestru. Mae'n bosibl y byddai ymgyrch gydol y flwyddyn a hysbysebion cyfeirio ar wefannau'r llywodraeth sy'n atgoffa dinasyddion Cymru y cânt gofrestru ar unrhyw adeg yn helpu gyda'r mater hwn.

Ffigur 7: Gwledydd â chofrestru gorfodol (ac eithrio'r rhai sydd â phleidleisio gorfodol) a'r nifer sy'n pleidleisio (%)



Ffynhonnell: yr awduron, gyda data o Rwydwaith Gwybodaeth Etholiadol ACE ac IDEA; data o'r etholiadau seneddol diweddaraf, 2014-2021

Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn caniatáu i ddinasyddion tramor cymwys bleidleisio yn etholiadau Cymru. Yn ôl Cyfrifiad 2011, ni chafodd 5.5% o'r boblogaeth yng Nghymru eu geni yn y DU. Mae mewnfudwyr i Gymru yn derbyn y ffurflen gofrestru etholiadol yn y post ac yn cael cyfarwyddiadau i'w llenwi ac i'w phostio neu i wneud hynny'n electronig. Mae'n bwysig sicrhau bod eu sgiliau iaith yn caniatáu iddynt gymryd rhan

lawn – mae'r cofrestriad etholiadol drwy'r post yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond nid yw bob amser ar gael ar-lein mewn ieithoedd eraill. Er enghraifft, mae Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea yn cynnig fersiynau print o'r ffurflen gofrestru etholiadol mewn sawl iaith (Ffigur 8). Gallai cynghorau ledled Cymru wneud yr un peth.

Ffigur 8: Enghraifft (Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea) o ffurflen gofrestru etholiadol mewn ieithoedd eraill sydd ar gael ar-lein

The screenshot shows the 'Register to vote' page on the Royal Borough of Kensington and Chelsea website. The page has a blue header with the title 'Register to vote'. Below the header, there is a navigation bar with links to Home, Services, Coronavirus (COVID-19) updates, Pay online, Report a problem, Stay connected, and MyRBKC Account. The main content area is divided into two sections: 'Contents' on the left and 'Voting registration forms in other languages' on the right. The 'Contents' section lists 19 items, with item 6, 'Voting registration forms in other languages', highlighted in pink. The 'Voting registration forms in other languages' section contains a list of 24 languages with links to their respective PDF forms and file sizes. The footer indicates the page was last updated on 29 November 2019.

Language	File Size
Arabic [PDF]	116Kb
Bengali [PDF]	121Kb
Bulgarian [PDF]	494Kb
Chinese [PDF]	194Kb
French [PDF]	105Kb
Gaelic [PDF]	497Kb
German [PDF]	127Kb
Greek [PDF]	493Kb
Gujarati [PDF]	115Kb
Hindi [PDF]	117Kb
Hungarian [PDF]	508Kb
Italian [PDF]	502Kb
Korean [PDF]	407Kb
Easy Read English [PDF]	478Kb
Large Print English [PDF]	146Kb
Latvian [PDF]	96Kb
Lithuanian [PDF]	96Kb
Polish [PDF]	118Kb
Portuguese [PDF]	486Kb
Punjabi [PDF]	194Kb
Romanian [PDF]	494Kb
Russian [PDF]	115Kb
Slovak [PDF]	130Kb
Spanish [PDF]	102Kb
Tamil [PDF]	284Kb
Turkish [PDF]	95Kb
Urdu [PDF]	499Kb
Welsh [PDF]	159Kb
Large Print Welsh [PDF]	739Kb

Mae'n hanfodol cynnwys gwladolion tramor yn y gyfraith ac yn ymarferol a dangos iddynt fod gwleidyddiaeth Cymru yn effeithio ar eu bywydau. Mae gwledydd eraill sydd wedi cymryd camau o ran cynhwysiant ac integreiddio wedi gweld rhyddfrefinio fel arf a chanlyniad yn y broses hon. Nid yw rhyddfrefinio gwladolion tramor yn golygu bod pobl yn pleidleisio ar unwaith, fel y dangosir mewn gwledydd eraill (Ericsson, 2020; Engdahl et al. 2018; Ferwerda et al., 2018; Tossutti, 2007). Canfu astudiaeth o Sweden fod rhyddfrefinio gwladolion tramor a'u cyfranogiad mewn cymdeithasau yn

gofyn am ryw fath arall o weithredu er mwyn cysylltu'r gweithgareddau hyn ac er mwyn creu'r cysylltiad rhwng cyfranogiad cymdeithasol a phleidleisio (Bevelander a Spång, 2017). Mae ymchwil wedi canfod, mewn mannau â strwythur gwleidyddol mwy agored, fod cyfraddau uwch o gyfranogiad gwleidyddol, gan gynnwys pleidleisio gan ddinasyddion tramor, er nad yw hyn yn cyfateb i lefelau'r dinasyddion a anwyd yn y wlad honno (Cinalli a Giugni, 2011).

Ar draws y ddwy astudiaeth hyn, ystyriwyd y nodweddion canlynol: meistrolaeth ar brif iaith y wlad, cenhedlaeth (h.y. disgynyddion gwladolion tramor), amseriad y mudo, y math o fudo, dinasyddiaeth, rhyw, oedran, crefydd a chyflogaeth. Mae gan Gymru bolisi agored o ran rhyddfrefinio gwladolion tramor, ond gall Llywodraeth Cymru wneud gwaith gyda chynghorau lleol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am hawliau pleidleisio yn cael ei dosbarthu'n eang. Mae lle hefyd i gasglu gwybodaeth ar hyn o bryd, o gofio mai dim ond un etholiad y mae Cymru wedi'i gael gyda'r grŵp newydd hwn.

Opsiwn arall ar gyfer gwella'r broses gofrestru yw **cofrestru awtomatig**. Yma, mae dinasyddion yn cael eu cofrestru i bleidleisio bryd bynnag y byddant yn cofrestru ar gyfer gwasanaethau eraill (James a Bernal, 2021). Gall hyn ategu cofrestru gorfodol ac yn hytrach na chosb ariannol yn unig, efallai y bydd angen i ddinasyddion gofrestru i bleidleisio er mwyn cael mynediad at rai gwasanaethau. Roedd ymyriad yn yr Unol Daleithiau a oedd yn cynnwys cofrestru pleidleiswyr ynghyd â mynediad at wasanaethau cymdeithasol, yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y bobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a bleidleisiodd (Bhatt et al., 2020). Dylid gweithredu system groeswrio er mwyn atal cofrestriadau dwbl.

Ar gyfer etholiadau Cymru 2021, adroddodd y Comisiwn Etholiadol fod '86% o bobl yn fodlon â'r broses cofrestru i bleidleisio'. Yn 2017, ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol, defnyddiodd 96% o bobl newydd eu cofrestru wasanaethau ar-lein; roedd hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc ac unigolion dramor.

Mae sawl ffordd o wneud cofrestru'n haws ac yn fwy hygyrch, gyda'r rhybudd y gallai hyn arwain pleidleiswyr i gofrestru fwy nag unwaith os cânt eu hannog yn aml i wneud hynny ac os nad ydynt yn cofio a ydynt eisoes wedi cofrestru, gan arwain at waith ychwanegol i swyddogion etholiadol. Canfuwyd y mater hwn gan y Comisiwn Etholiadol yn etholiadau Cymru 2021. Er y dylai cofrestru fod mor hawdd â phosibl, rhaid iddo hefyd wneud rheolaeth etholiadol yn symlach, heb gymaint o gamau.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell cofrestru awtomatig a threigl, atgyfnerthu sianeli ar-lein, yn ogystal â chofrestru awtomatig ac ymwybyddiaeth ehangach o'r gofrestr ddiennw er mwyn diogelwch ac atebolrwydd (James a Bernal, 2020). Gwnaeth adroddiad diweddar ar gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn y DU sawl


argymhelliad i lywodraeth y DU ynghylch sut i ddatblygu cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig (James a Bernal, 2021). Mae'r argymhellion canlynol yn berthnasol i Gymru:

1. Dylai llythyrau at ddinasyddion yng Nghymru sy'n rhoi gwybod iddynt beth yw eu rhif Yswiriant Gwladol cyn eu pen-blwydd yn 16 oed gynnwys ffurflen cofrestru pleidleiswyr (James a Bernal, 2021)
2. Dylai dinasyddion allu 'optio i mewn' ac yn y bôn, cofrestru i bleidleisio wrth gael mynediad at wasanaethau yng Nghymru, gyda chyfarwyddiadau clir ynghylch yr hyn y mae hynny'n ei olygu a mynediad ar unwaith at y gofrestr ddienw (James a Bernal, 2021)
 - a. Dylid gwneud hyn yn sensitif, gan ystyried sefyllfa pobl sy'n agored i niwed wrth wneud cais ar gyfer rhai gwasanaethau
3. Dylid annog colegau a phrifysgolion yn gryf i gael digwyddiadau cofrestru pleidleiswyr ar eu heiddo (James a Bernal, 2021)
4. Dylai fod yn ofynnol i brifysgolion gynnwys arferion cofrestru pleidleiswyr yn eu prosesau cofrestru myfyrwyr blynyddol (James a Bernal, 2021)
5. Dylid cynnal 'digwyddiadau' cofrestru gyda phoblogaethau o fewnfudwyr, ar ôl ymgynghori â grwpiau ac arweinwyr cymunedol
6. Er bod y gofrestr etholiadol yn un gyhoeddus, mae angen sicrhau bod y wybodaeth am sut i fod yn ddienw ar gael yn glir a bod y broses ar gael yn rhwydd i bleidleiswyr
7. Dylid gwneud ymdrech i ddileu dyblygu ac i sicrhau dilysrwydd cofrestr etholiadol Cymru. Gallai hyn gynnwys offeryn ar-lein sy'n caniatáu i unigolion wirio eu statws (Comisiwn Etholiadol, 2017)
8. Dylai cofrestru ar y diwrnod pleidleisio fod ar gael yng Nghymru, gan ganiatáu i unigolion gofrestru a phleidleisio ar yr un diwrnod, gan y dangoswyd bod hynny'n lleihau anghydraddoldeb ymhlith grwpiau, yn enwedig pleidleiswyr ifanc a rhentwyr (Grumbach a Hill, 2021; Knack a White, 2000), ac er mwyn cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio'n gyffredinol (Garnett, 2018)
9. Dylid ymdrechu i gynnal cofrestr lân heb orfodi dinasyddion i ailgofrestru
10. Dylid cyflwyno ymgyrch gydol y flwyddyn a rhoi hysbysebion cyfeirio ar wefannau'r llywodraeth sy'n atgoffa dinasyddion Cymru y cânt gofrestru ar unrhyw adeg.

Er nad oes llawer o dystiolaeth am y cysylltiad rhwng cynnal y gofrestr etholiadol a'r nifer sy'n pleidleisio, mae sail resymegol ddemocrataidd glir dros gael cofnod cywir

o'r etholwyr posibl (Piccolino, 2015; Rosenblatt et al., 2012; Roy, 2012). Mae potensial i ddysgu o'r 'arferion gorau'. Mae gan Costa Rica, er enghraifft, weithdrefnau sy'n cynnwys cofrestru awtomatig, ID unedig, a dilysu cywirdeb yn ddyddiol (González, 2007).

Yn olaf, mae gan rai gwledydd sydd â chofrestru gorfodol bleidleisio gorfodol hefyd. Mae'r gwledydd sydd wedi cynnwys y mesur hwn wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio, ond mae dadl ynghylch a yw'n ddemocrataidd i 'orfodi' rhywun i bleidleisio. Dengys tystiolaeth fod pleidleisio gorfodol yn cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio ac yn lleihau anghydraddoldebau ymhlith pleidleiswyr, er nad yw o reidrwydd yn ffurfio arferion (hynny yw, pe bai'n cael ei ddileu, gallai pobl droi'n ôl i beidio â phleidleisio) (Gaebler et al., 2020; Hoffman et al., 2017; Jaitman, 2012; Singh, 2011; 2014).



Mae'r ddadl ddemocrataidd a nodir uchod wedi'i llunio o safbwynt unigolion. O safbwynt y wladwriaeth, mae pleidleisio gorfodol yn sicrhau bod gan bleidleiswyr yr un profiad, yr un atebolrwydd a'r un ymatebolrwydd o ran pleidleisio, ble bynnag neu pwy bynnag ydynt. Pan fydd cofrestru a phleidleisio'n orfodol, mae'r cyfrifoldeb ar y wladwriaeth i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu cael mynediad at y prosesau hyn.

Trafodaeth a chrynodeb

Mae'r dystiolaeth a drafodir yn yr adran hon yn edrych ar ffyrdd o wneud cofrestru'n haws i ddinasyddion ac i weinyddu etholiadau. Mae cofrestru etholiadol sy'n cael ei rhedeg yn dda yn hanfodol er mwyn sicrhau gonestrwydd etholiadau a bod y broses yn rhedeg yn esmwyth rhwng ac yn ystod etholiadau.

Er bod cofrestru eisoes yn orfodol yng Nghymru, rhaid i'r llywodraeth sicrhau bod cofrestru'n gynhwysol ac ar gael i bawb. Dylai drin pleidleisio fel pe bai'n orfodol,

gyda gorsafoedd pleidleisio hygyrch mewn gwahanol leoliadau, gan ystyried arferion gweithio ac anghenion gofal dinasyddion Cymru.

Nid oes un o'r mesurau a gyflwynir yma yn debygol o leihau'r nifer sy'n pleidleisio – mae ymchwil wedi dangos nad oes ganddynt unrhyw effeithiau cadarnhaol neu rai gweddol gadarnhaol. **Mae pleidleisio a'r ffyrdd y mae pobl yn pleidleisio yn fater o arfer**, sy'n tyfu'n raddol. Rhaid cymryd gofal wrth gyflwyno diwygiadau a hefyd rhaid deall y bydd mesurau'n cymryd amser i gael effaith, ac y gall unrhyw effeithiau fod yn fach. Nid oes tystiolaeth ychwaith fod yr arferion etholiadol arloesol a ddadansoddwyd yma yn fwy ffafriol i dwyll etholiadol na phleidleisio wyneb yn wyneb, ar y diwrnod pleidleisio.

Wrth ystyried pa ddiwygiadau i'w cyflwyno, mae'n bwysig cydnabod bod mesur effaith yn anodd, yn enwedig pan gyflwynir nifer o ddiwygiadau ar yr un pryd. Gan nad oes 'bwledi arian', dylid diffinio'r disgwyliadau ar ganlyniadau yn unol â hynny. Dylai etholiadau hygyrch a diogel fod yn norm democrataidd a dylid gwneud pob ymdrech i'w dylunio a'u cynnal a'u cadw.

Mae pleidleisio drwy'r post eisoes yn gyffredin yng Nghymru, ar gyfer etholiadau'r DU a Chymru. Rhaid i'r ymdrechion i ehangu pleidleisio drwy'r post ystyried y dylent leihau costau cyfranogi a bod yn hawdd eu cyflawni. Mae angen mesurau diogelu yn erbyn pleidleiswyr sy'n gwneud camgymeriadau ac mae angen dewisiadau amgen i'r rhai sy'n difetha eu pleidleisiau drwy gamgymeriad. Dylid cyflwyno newidiadau i bleidleisio drwy'r post yn raddol, fel bod modd cael rhagor o wybodaeth a ffurfio arferion; a dylid ystyried amserlenni pleidleiswyr gwledig a thramor (IDEA, 2000).

Dylai ymdrechion i wneud y boblogaeth yn fwy ymwybodol o bleidleisio drwy'r post ac ehangu'r defnydd ohono fod yn rhan o becyn o ddiwygiadau i gynyddu effeithiolrwydd (Hernson et al., 2019; James, 2011). Ymhlith yr arferion etholiadol arloesol eraill a drafodir, mae pleidleisio hyblyg, Canolfannau Pleidleisio Ar Ddiwrnod yr Etholiad (EDVCs), safleoedd pleidleisio heb fod yn draddodiadol, pleidleisio symudol, a blychau pleidleisio electronig all-lein. Mae'r rhain yn ystyried y canlynol:

- Erbyn hyn, mae gan boblogaeth Cymru arferion gweithio amrywiol ac efallai na fyddant bellach ynghlwm wrth yr amserlen waith 9 i 5
- Mae gan bobl gyfrifoldebau gofal
- Mae anabledd yn effeithio ar bobl yn wahanol a gall gynnwys agweddau eraill ar wahân i symudedd
- Nid oes gan bob un gar neu nid yw pob un eisiau cael car a/neu fyw mewn amgylcheddau trefol

Diogelwch ymgeiswyr ac asiantau

Crynodeb

- Mae diogelwch ymgeiswyr ac asiantau yn bryder cynyddol yng ngwleidyddiaeth Cymru o ystyried adroddiadau am drais yn erbyn gwleidyddion Cymru.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil gyfredol yn ymwneud â menywod mewn gwleidyddiaeth, gyda rhywfaint o fewnwelediad i ethnigrwydd a hil.
- Mae continwwm o drais sy'n amrywio o gam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol i ymosodiadau corfforol, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn. Mae trais yn aml yn dwysáu, sy'n golygu bod yr un unigolyn yn dioddef nifer o droseddau.
- Mae trais oherwydd rhyw ac ethnigrwydd yn wahanol i drais oherwydd gwahaniaethau gwleidyddol.
- Mae'n aneglur ble a sut y caiff trais ei ystyried wrth i unigolyn benderfynu a yw eisiau ceisio cael ei ethol ac mae'n rhaid cael mwy o ymchwil i ddatrys hyn.

Cwestiynau ymchwil

Adolygwyd y dystiolaeth ar ddiogelwch ymgeiswyr ac asiantau yn unol â'r pedwar cwestiwn ymchwil canlynol:

1. Pa dystiolaeth (os oes o gwbl) sydd bod **unigolion yn gyffredinol** neu'n fwy penodol o **grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hatal rhag ceisio cael eu hethol oherwydd pryderon am eu diogelwch personol**?
2. Pa **mesurau** y gellid eu cymryd i sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantau etholiadol yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag bygythiadau neu gamdriniaeth wrth ymgychu ar gyfer etholiadau?
3. I ba raddau y gellid defnyddio'r mesurau hyn i **annog ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr** i ystyried sefyll i gael swydd etholedig?
4. Sut y gellir **gwella'r mesurau diogelwch presennol**?

Cyflwyniad

Deall trais yn erbyn gweithredwyr gwleidyddol

I ateb y cwestiwn ymchwil cyntaf, rhaid inni ddeall trais yng nghyd-destun gwleidyddiaeth etholiadol a phwy y mae'n debygol o effeithio arno, gan ystyried hefyd sut mae dinasyddion yn dod yn wleidyddion. Mae'r adran hon yn archwilio'r patrymau o ran sut mae systemau gwleidyddol yn hidlo unigolion i wneud y penderfyniad i ddod yn ymgeiswyr a cheisio cael eu hethol a phwysigrwydd cymharol y bygythiad o drais yn y broses hon o wneud penderfyniadau.

Mae cysyniadau trais gwleidyddol a thrais etholiadol yn llawer ehangach na'n cwmipas ni yma (Birch a Muchlinski, 2020). Mae sawl rheswm pam y gallai trais ddigwydd o fewn cyd-destunau gwleidyddol, naill ai yn erbyn gweithredwyr gwleidyddol neu rhyngddynt. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar drais yn erbyn poblogaethau sydd wedi'u hymyleiddio o wleidyddiaeth sefydliadol a sut y gallai'r trais hwnnw fod yn rhwystr iddynt gymryd rhan. Mae Ffigur 9 yn amlinellu diffiniadau ar gyfer trais o fewn gwleidyddiaeth (Bjarnegård, 2018; Birch et al., 2020).

Ffigur 9: Diffiniadau o fewn trais mewn gwleidyddiaeth

Trais gwleidyddol	• Gweithredoedd treisgar nad ydynt yn gysylltiedig ag etholiadau, neu sy'n gysylltiedig â meysydd gwleidyddiaeth eraill
Trais etholiadol	• Gweithredoedd treisgar y gellir eu cysylltu'n uniongyrchol ag eiliad etholiadol (cyn, yn ystod, neu ar ôl etholiadau) sy'n ceisio gwrthdroi cwrs arferol etholiad neu newid ei ganlyniadau
Trais gan y cyhoedd	• Gweithredoedd treisgar y mae aelod o'r cyhoedd yn eu cyflawni yn erbyn dinesydd arall neu weithredwr gwleidyddol
Trais gan asiantau gwleidyddol eraill	• Gweithredoedd treisgar y mae gweithredwyr gwleidyddol neu wladol (fel gwleidyddion neu'r heddlu) yn eu cyflawni yn erbyn gweithredwyr gwleidyddol eraill neu bleidleiswyr

Mae'r anghydraddoldebau parhaus rhwng y rhywiau a'r anghydraddoldebau ethnig/hiliol mewn cymdeithas heddiw, sy'n arwain at brofiadau bywyd gwahanol i bobl, yn golygu bod grwpiau penodol yn cael eu **hymyleiddio'n systemig** o swyddi sy'n rhoi pŵer, gan gynnwys mewn gwleidyddiaeth. O ganlyniad, dim ond **un o lawer o ffactorau posibl cysylltiedig** sy'n atal unigolion wedi'u hymyleiddio rhag mynd i mewn i wleidyddiaeth yw'r bygythiad canfyddedig o drais.

Prin yw'r dystiolaeth gyfanredol am y trais systematig y mae unigolion LHDTCRh+ yn ei ddioddef mewn gwleidyddiaeth, yn enwedig ar lefel yr ymgeisydd. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth astudiaeth achos ei fod yn digwydd, yn ogystal â'r data ar drais penodol y mae unigolion LHDTCRh+ yn ei ddioddef. Felly, dylai unrhyw fesurau i leihau trais mewn gwleidyddiaeth yn erbyn cymunedau wedi'u hymyleiddio gynnwys safbwyntiau a phrofiadau'r grwpiau hyn.

O fewn y cyd-destun gwleidyddol, mae sawl ffurf ar drais ac mae'n digwydd ymhlith gwahanol weithredwyr. Mae ei arwyddocâd yn amrywio hefyd. Wrth drafod sut i gynnwys rhagor o fenywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn gwleidyddiaeth, mae'n bwysig deall bod y trais y maent yn ei brofi yn wahanol i unrhyw fath arall, ac mae'n bwysig adnabod sut a pham y mae'n digwydd. Mae hyn yn cynnwys 'adlach' ('backlash'), sef y term a ddefnyddir i gyfeirio at weithredoedd yn erbyn mesurau blaengar.



Mae **adlach** yn broses 'gwrthwynebiad dynamig' (Mansbridge a Shames, 2008), lle bydd unigolion neu grwpiau sy'n teimlo eu bod wedi colli pŵer a oedd ganddynt o'r blaen yn ymateb i'r golled honno. Mae'n fwy nag adwaith i un weithred, mae'n wrthwynebiad systematig i newid mewn deinameg pŵer – fodd bynnag, gall y gwrthwynebiad hwn fod ar sawl ffurf, gan gynnwys gweithredoedd unigol o drais neu ymosodiadau wedi'u cydlynu.

O fewn y llenyddiaeth ar drais ac, yn benodol, llenyddiaeth ar drais ar sail rhyw, mae **continwmm** o drais sy'n amrywio rhwng 'pell, heb gyswllt uniongyrchol' i 'agos yn gorfforol a bygythiad o niwed corfforol'. Mae'r rhain yn gategorïau eang sydd i fod i ddynodi ystod o bosibiliadau, o ran gweithredoedd treisgar a chyflawnwyr a

dioddefwyr (neu grwpiau o gyflawnwyr a dioddefwyr).¹² Er enghraifft, mae gweithiwr gorsaf bleidleisio benywaidd sy'n cael ei slapio gan bleidleisiwr sy'n ddyn, yn asiant gwleidyddol sy'n cael ei erlid drwy gyswllt corfforol agos (Dyer et al., 2019). Nid yw AS benywaidd sy'n profi trydariadau treisgar mewn cysylltiad agos ond mae'n dioddef cam-drin seicolegol parhaus gan nifer o gyflawnwyr a allai fod yn gweithredu ar y cyd neu beidio (Kuperberg, 2018).

Gellid dadlau a yw'r naill neu'r llall o'r achosion hyn yn cynrychioli gweithredoedd treisgar ar sail rhyw: a fyddai'r dyn yn yr achos cyntaf wedi slapio'r gweithiwr yn yr orsaf bleidleisio pe bai wedi bod yn ddyn? A fyddai'r trais hwnnw wedi bod yn fwy? Mae ASau gwrywaidd hefyd yn dioddef cam-drin ar-lein a thrais corfforol, felly a yw'r achos olaf yn dystiolaeth o ymosodiad ar sail rhyw?

Gall trais yn erbyn menywod (Violence against women, VAW) fod ar sawl ffurf

Trais corfforol uniongyrchol, trais cymdeithasol-seicolegol, trais economaidd (Bardall, 2011).

Trais corfforol, seicolegol, rhywiol, economaidd, a semiotig/symbolaidd (Bardall, 2019; Espinoza a Sandoval, 2019; Krook a Sanín, 2016; 2019).

Trais corfforol, seicolegol, rhywiol, treftadol a moesol (Cyfraith Brasil 11340/2006).


Mae dau drywydd o feddwl yma. Mae'r cyntaf yn dadlau bod trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn deillio o drais yn erbyn menywod, hynny yw, mae'n ymosodiad ar fenywod nad ydynt yn dilyn rolau rhyw traddodiadol (Bardall, 2011; Krook a Sanín, 2016). Mae'r dull hwn yn gweld bod profiadau dynion yn cael eu blaenoriaethu wrth drafod trais mewn gwleidyddiaeth ac mae'n ceisio ei ailfframio, drwy ddangos bod menywod mewn gwleidyddiaeth yn dioddef trais *oherwydd* mai menywod ydynt.

Mae'r ail drywydd yn dadlau bod trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn deillio o drais gwleidyddol – yn hytrach nag edrych ar yr is-set 'menywod', mae'n edrych ar yr is-set 'gweithredwyr gwleidyddol', ac yn archwilio'r trais sy'n digwydd yn erbyn menywod o fewn y cyd-destun hwn (Bjarnegård, 2018; Piscopo, 2016;

¹²Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn canolbwyntio ar fenywod ym myd gwleidyddiaeth. Esbonnir hyn yn rhannol gan y cynnydd diweddar mewn ymgeiswyr benywaidd a menywod yn eu swydd sydd, yn eu tro, wedi cynyddu'r adlach yn erbyn eu presenoldeb (Bardall, 2011; Schneider a Carroll, 2020; Håkansson, 2021).


Scheneider a Carroll, 2020). Mae'r farn hon yn ddefnyddiol wrth lunio deddfwriaeth ac wrth ddeall bod trais gwleidyddol ac etholiadol yn effeithio ar nifer o weithredwyr, gan eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau gwleidyddol (gweler Ffigur 10). Yn y pen draw, mae'r cysyniadau hyn yn dod at gwestiwn tebyg: pryd mae trais yn erbyn menyw yn y maes gwleidyddol ar sail rhyw (gweler Ffigur 11)? Yn fwy cyffredinol, pryd yr ymosodir ar weithredwr gwleidyddol oherwydd pwy ydyw, yn hytrach nag oherwydd ei ideoleg neu ei weithredoedd gwleidyddol? Er mai prin yw'r ymchwil ynglŷn ag is-grwpiau eraill, gellir gofyn yr un cwestiynau am bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phoblogaethau sy'n croestorri.

Ffigur 10: Dimensiynau trais etholiadol ar sail rhyw



Ffynhonnell: addaswyd o Schneider a Carroll, 2020

Ffigur 11: Trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth fel trais sy'n deillio o drais gwleidyddol



Ffynhonnell: Schneider a Carroll, 2020

Nid dosbarthu mathau o drais yn unig mae'r continwwm trais, mae hefyd yn disgrifio **llwybr dwysáu** sy'n normaleiddio ymddygiad treisgar. Mae trais corfforol yn fwy tebygol o gael ei adrodd a'i ragflaenu gan ddigwyddiadau heb eu hadrodd o gam-drin geiriol, ysgrifenedig a seicolegol (Krook a Sanín, 2016; Ballington et al., 2017; Bjarnegård, 2021).¹³ Felly, mae **normaleiddio trais gwleidyddol** yn gyffredinol yn destun pryder, yn enwedig o ystyried y cyfleoedd y mae'r cyfryngau cymdeithasol yn eu cynnig.

Yn Bolivia, arweiniodd trais yn erbyn Juana Quispe, cynghorydd yn Ancoraimas, at Gyfraith 243/2012. Bu i sut gafodd ei phoenyddio a'i llofruddio oherwydd ei swydd fel cynghorydd tref a'i gwaith yn cynorthwyo menywod eraill sy'n dioddef camdriniaeth a thrais amlygu'r sefyllfa anghynnaladwy o drais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn y wlad honno.

¹³ Gan fod mwy o adrodd yn aml am drais corfforol nag am fathau eraill o drais, mae cysylltiadau mawr rhwng y canfyddiad o drais â thrais corfforol. Os prin yw'r adroddiadau am drais corfforol, mae perygl inni ystyried nad oes trais yn bodoli, pan na fydd hynny'n wir o bosibl.

#NotTheCost

STOPPING VIOLENCE AGAINST WOMEN IN POLITICS

O dan arweiniad y Sefydliad Democrataidd Cenedlaethol, mae'r ymgyrch ymwybyddiaeth #NotTheCost wedi bod yn allweddol wrth ddiffinio trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth ac wrth

Mae'r Gyfraith yn erbyn Trais Gwleidyddol ac Aflonyddu ar Fenywod yn diffinio trais neu aflonyddu fel a ganlyn:

"... yn erbyn ymgeiswyr benywaidd, sydd wedi'u hethol, eu penodi neu sy'n arfer swyddogaeth wleidyddol-gyhoeddus neu yn erbyn eu teuluoedd, gyda'r nod o gwtogi, atal, llesteirio, neu gyfyngu ar y swyddogaethau sy'n gynhenid i'w swydd, o'i chymell neu o'i gorfodi i weithredu yn erbyn ei hewyllys neu hepgor gweithred wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau neu wrth arfer ei hawliau. " (Cyfraith 243/2012, wedi'i chyfieithu o'r Sbaeneg).

Mae'r gyfraith yn manylu ymhellach ar aflonyddu fel pwysau, erledigaeth, ymddygiad gelyniaethus neu fygythiadau, a thrais fel ymddygiad ymosodol corfforol, seicolegol a rhywiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gorfodi stereoteipiau rhyw
- Gosod cyfrifoldebau ychwanegol sy'n llesteirio arfer dyletswyddau gwleidyddol
- Atal gwleidydd benywaidd rhag mynychu unrhyw sesiynau neu gynulliadau gwleidyddol eraill y mae ganddi hawl iddynt ac o ganlyniad rhoi taw ar ei llais a'i phleidlais
- Rhoi gwybodaeth ffug am yr ymgeisydd i'r Swyddfa Etholiadol Amlgenedlaethol
- Ei hatal rhag dychwelyd i'w swydd ar ôl absenoldeb cyfiawn
- Ei chyfyngu rhag siarad mewn sesiynau, pwyllgorau neu gyfarfodydd eraill
- Cyfyngu ar fenywod sy'n dod o etholiadau gwahaniaethol (gweithdrefnau brodorol ac AffroBolifiaidd) rhag cyflawni eu hawliau gwleidyddol
- Ei chyfyngu rhag diogelu ei hawliau â dulliau cyfreithiol
- Gosod sancsiynau heb gyfiawnhad
- Cadw cyflogau neu sancsiynau ariannol eraill
- Unrhyw wahaniaethu oherwydd hunaniaethau eraill y gallai menywod eu hadnabod
- Gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd

- Cyhoeddi gwybodaeth breifat er mwyn bwlio menyw i ymddiswyddo
- Cyhoeddi gwybodaeth ffug am sut mae'n cyflawni ei dyletswyddau gwleidyddol
- Unrhyw bwysau i ymddiswyddo
- Rhoi pwysau ar fenyw wedi'i hethol i lofnodi deddfwriaeth nad yw hi'n cytuno â hi neu ei gorfodi i wneud hynny¹⁴

Er bod y rhain yn faterion na ddylai unrhyw un sydd ag uchelgais gwleidyddol, unrhyw ymgeisydd neu swyddog etholedig orfod ymdopi â hwy, mae'r dystiolaeth yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o'u profi'n systematig. Yn ogystal, mae menywod sy'n pleidleisio hefyd yn wynebu pwysau a thrais i bleidleisio yn groes i'w dewisiadau, ond prin yw'r ymchwil ar y mater hwn (Bardall, 2013; Birch a Muchlinski, 2018; Dyer et al., 2019). O ystyried y dystiolaeth ar anghydraddoldeb hiliol (Fisher et al., 2015; Park et al., 2020; Showunmi a Price, 2021; Taylor-Collins a Pharc, 2020), mae'n debygol y bydd unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu problemau tebyg.

Deall y biblinell i wleidyddiaeth sefydliadol

Mae'r 'biblinell' yn cyfeirio at y llwybr sy'n mynd â rhywun o fod yn ddinesydd i fod yn wleidydd. Oherwydd patrymau ym mhrofiadau gwleidyddion, mae fel arfer yn golygu bod rhai llwybrau'n fwy tebygol o arwain at swydd etholedig, megis graddau penodol; ymlyniad cynnar wrth blaid; cymryd rhan mewn undeb; a gweithredu gwleidyddol (Burns et al., 2001; Fox a Lawless, 2003; 2005; 2010; Gomes, 2016; Murray, 2015).

Fodd bynnag, mae dadl ar y mater hwn o ran ai gwleidyddiaeth sy'n dewis yr unigolion hyn neu a ydyn nhw'n eu dewis eu hunain? Hynny yw, os yw'r gyrfaedd/gweithgareddau hyn yn fwy tebygol o baratoi rhywun at rôl etholedig, a yw pobl sydd eisiau mynd i faes gwleidyddiaeth yn chwilio amdany'n nhw hefyd? Mae grwpiau gwahanol o bobl yn debygol o fod â rhesymau gwahanol dros geisio cael eu hethol. Gall hyn esbonio gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran profiadau a llwybrau gwleidyddion (Araújo, 2010).¹⁵

Mae ymchwil wedi dangos bod y biblinell yn cynnwys newidynnau eraill: mae dynion gwyn, heterorywiol yn fwy tebygol o gael eu cynnwys mewn **rhwydweithiau**

¹⁴ <http://www.diputados.bo/leyes/ley-n%C2%B0-243>

¹⁵ Dangosodd yr astudiaeth fod dynion yn fwy tebygol o ddatgan gwleidyddiaeth fel eu nod yn y pen draw, tra oedd menywod yn mynd i fyd gwleidyddiaeth er mwyn datrys mater arall yr oedden nhw'n ymwneud ag ef. Mewn geiriau eraill, mae'n bosibl bod dynion yn gweld gwleidyddiaeth fel nod ynddi ei hun, tra mae menywod yn ei gweld fel dull o gyflawni nod.


gwleidyddol o oedran ifanc ac yn fwy tebygol o ddewis y proffesiynau neu'r llwybrau traddodiadol hynny (gan gynnwys cysylltiadau teuluol) i mewn i fyd gwleidyddiaeth. Mae hyn yn golygu bod y biblinell i wleidyddiaeth yn eithrio rhai pobl mewn ffordd fwy cynnil nag yr oedd eithrio ffurfiol yn arfer ei wneud (Phillips, 1995). Mae gan aelodau grwpiau lleiafrifol lai o fynediad at rwydweithiau, cyllid a phrofiad, ac mae'r **sefydliad a hyd yn oed nhw eu hunain yn eu hystyried yn ymgeiswyr llai hyfyw** (Lawless a Fox, 2005; 2010; Folke a Rickne, 2016; Maškarinec, 2021). Er bod menywod wedi cynyddu eu niferoedd mewn meysydd a ystyrir yn gyffredinol yn llwybrau at wleidyddiaeth, megis y gyfraith, ac yn cael mwy o flynyddoedd o addysg ffurfiol na dynion yn y rhan fwyaf o wledydd (Gomes, 2012), maent yn dal yn llai tebygol o fod yn aelodau gweithredol o'r pleidiau, o gyrraedd swyddi arwain mewn pleidiau, neu o ddod yn ymgeiswyr. Mae hyn yn golygu nad cael yr yrfa 'gywir' yw'r unig ffactor y mae angen ei ystyried:

"Ond nid yw ymddangosiad menywod fel ymgeiswyr wedi symud mor gyflym â'r cymwysterau addysgol a phroffesiynol y maent wedi'u caffael. Mae'r amgylchiadau hyn yn awgrymu bod deall y deinameg rhywedd sy'n sail i'r broses y mae unigolion yn ei defnyddio i benderfynu ceisio cael eu hethol yn gam sylfaenol er mwyn datblygu dealltwriaeth lawnach o achosion sylfaenol pam mae menywod wedi'u tangynrychioli. Pan fydd menywod yn sefyll, mae menywod yn ennill. Ond os ydyn nhw'n systematig yn llai tebygol na dynion o ddod i'r amlwg fel ymgeiswyr, yna nid yw'r gorwel ar gyfer cydraddoldeb rhywiol mor ddisglair ag y mae asesiadau confensiynol yn ei awgrymu." (Lawless, 2015, t. 353)

Mae Ffigur 12 yn dangos y ffactorau y canfuwyd eu bod yn hanfodol wrth i bobl benderfynu a ydynt yn mynd i geisio cael eu hethol. Bydd darpar ymgeisydd – hynny yw, unigolyn sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth, sy'n debygol o fod yn aelod o blaid, gyda rhai cysylltiadau neu rwydweithiau yn y gymuned – yn ystyried ei siawns o ennill a'r canlyniadau y gallai ei gyflawni. Bydd ei statws posibl fel aelod ymylol o'r gymuned hefyd yn effeithio ar ei benderfyniad i sefyll etholiad.

Os yw'r person hwnnw'n credu bod y tebygolrwydd o brofi trais drwy gydol yr ymgyrch yn uchel, naill ai oherwydd problemau treisgar blaenorol nad ydynt yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth, materion o fewn y blaid, neu brofiadau negyddol hysbys gan ymgeiswyr/gwleidyddion tebyg eraill, efallai y bydd yn dewis peidio â cheisio cael ei ethol. Os yw'r holl ffactorau hyn yn bresennol a bod yr ymgeisydd yn dal i fod eisiau sefyll, yna daw ei uchelgais yn 'uchelgais fynegiannol' ac mae bellach yn cael ei lunio gan y cyfleoedd gwleidyddol sydd y tu hwnt i'w reolaeth (cyfleoedd a fydd yn dal i gael eu llunio gan anghydraddoldebau strwythurol).


Ffigur 12: Diagram o uchelgais gwleidyddol



Ffynhonnell: addaswyd o Lawless a Fox (2005).


Gan barhau â'r enghraifft rhywedd, mae Ffigur 13 yn dangos y biblinell wleidyddol 'ymddangosiadol', gyda menywod yn cael eu cynrychioli'n llai o faint i ddangos bod llai o niferoedd, ond mae'n ymddangos bod y llwybr yr un fath. Dangosir piblinell fwy realistig, ond symlach o hyd, yn Ffigur 14, gyda phwyntiau 'gollwng' yn cael eu nodi.

Ffigur 13: Y biblinell 'ymddangosiadol' ar sail rhywedd



Ffynhonnell: yr awduron

Ffigur 14: Pibell 'symlach' yn ôl rhywedd




Ffynhonnell: yr awduron

A yw trais yn atal ymgeiswyr posibl ym maes gwleidyddiaeth?

Mae llai o ddealltwriaeth ynghylch effaith trais posibl ar gyfranogiad gwleidyddol. Mae'n hysbys eisoes y bydd agweddau eraill ar fywydau unigolion a'r ymyleiddio systemig y maent yn eu hwynebu yn effeithio ar eu diddordeb mewn gwleidyddiaeth (Fox a Lawless, 2003; Bernhard et al., 2021), ond a yw'r posibilrwydd o drais yn effeithio ar ymgeiswyr posibl (Bjarnegård et al., 2020)? Mewn arolwg gyda dros 1,500 o fenywod o ymgeiswyr posibl,¹⁶ **honnodd 25% mai ofn trais yn ystod y broses etholiadol oedd y rheswm dros beidio â cheisio bod yn ymgeisydd yn y pen draw** (Bernhard et al., 2021). Ymhlith ffactorau bywyd eraill, megis cymdeithasoli gwleidyddol, gwaith a chyfrifoldebau gofal, mae'n ymddangos bod ystyried sut byddant yn dod yn fwy amlwg yn gyhoeddus oherwydd gwleidyddiaeth (a'r aflonyddu a thrais sy'n dod gyda hyn) ar gynnydd fel rhwystr posibl. Yna, gall y posibilrwydd o drais fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ar wahanol adegau wrth i rywun ystyried gwleidyddiaeth – gweler Ffigur 15 (Collignon et al., 2020; Håkansson, 2021; Krook a Sanín, 2016).

¹⁶ Gwnaed yr arolwg gyda menywod a oedd yn hyfforddi yn rhaglen Emerge America sy'n paratoi menywod Democrataidd i ymgeisio am swyddi gwleidyddol yn yr Unol Daleithiau.

Ffigur 15: Effaith bosibl profiad o drais canfyddedig ar gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth



Ffynhonnell: yr awduron

Yn y DU, mae Bil Etholiadau 2021 yn ystyried diogelwch ymgeiswyr o dan y pennawd 'dylanwad gormodol' a 'gorchmynion anghymhwys'. Mae'n mynd â'r hawl i ymgeisio am swyddi gwleidyddol oddi wrth y rhai a gafwyd yn euog o drosedd Atodlen 8 pan gyflawnwyd y drosedd honno yn ystod etholiadau ac yn erbyn ymgeiswyr, deiliaid swyddi, neu ymgyrchwyr. Nid yw'n ystyried anghydraddoldebau a gormes systemig a allai effeithio ar wahanol aelodau o'r gymdeithas yn fwy nag eraill. Nid yw'n ystyried gweithredoedd treisgar gan aelod o'r cyhoedd yn erbyn gwleidydd/darpar ymgeisydd ond mae'n ystyried trais yn erbyn etholwyr. Yr unig gosb a ystyrir yw gwahardd unigolyn rhag ceisio cael ei ethol am bum mlynedd.

Nid oes astudiaethau yng Nghymru ynghylch trais mewn gwleidyddiaeth, ond yn ôl rhai cynghorwyr a ymatebodd i Arolwg Ymadael Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2017) 'Triniaeth gan y wasg a rhai aelodau o'r gymuned' oedd un o'r agweddau lleiaf pleserus ar waith llywodraeth leol. Fodd bynnag, byddai 71% o'r cynghorwyr yn argymhell y swydd i eraill. Yn bwysig iawn, dyma bobl sydd eisoes wedi penderfynu ceisio cael eu hethol ac sydd wedi ennill – hynny yw, maent yn credu bod ceisio cael eu hethol yn werth y risg o ddod i gysylltiad â thrais a'r posibilrwydd o'i ddioddef.

Wrth ystyried y dystiolaeth a ddadansoddwyd, mae'n bwysig tynnu sylw at rai pwyntiau cyffredinol:

- **Bwlch rhwng y rhywiau:** mae menywod a dynion yn profi gwahanol fathau o drais ar gyfraddau, lefelau bygythiad, a chynnwys gwahanol
 - Gall dynion brofi ymosodiadau ar sail rhyw os nad ydynt yn cydymffurfio â normau gwrywaidd (Kuperberg, 2018)
- **Bwlch ar sail hil/ethnigrwydd:** nid oes ymchwil sy'n benodol i hil/ethnigrwydd a thrais mewn gwleidyddiaeth
- **Amlygiad gwahanol:** mae'r profiad o drais yn wahanol i wleidyddion ar lefelau uwch ac is. Mae ymchwil wedi dangos bod y bwlch rhwng y rhywiau yn uwch ar lefelau uwch
- **Profiadau cydberthynol:**
 - *Croestoriadol:* bydd y profiadau'n wahanol rhwng ac o fewn grwpiau oherwydd y croestoriad o ran hil, ethnigrwydd, tarddiad, iaith, crefydd, dosbarth, a ffactorau demograffig eraill
 - *Cyfansawdd:* gall yr un person ddioddef sawl math o drais
- **Gwahaniaeth ansoddol:**
 - Mae trais corfforol **fel arfer** yn cael ei gyflawni yn erbyn dynion, yn hytrach na menywod; gwahaniaethau ideolegol/plaid yw gwraidd y trais hwn yn aml
 - Ymosodir ar wleidyddion lleiafrifol am bwy ydynt ac am fod ym maes gwleidyddiaeth
- **Gwahaniaeth meintiol:** yn erbyn menywod mae'r rhan fwyaf o ymosodiadau (o ystyried pob math o drais)

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn fan lle gall trais ddigwydd yn fwy rhydd, gan ei bod yn anoddach eu monitro ac ystyrir bod lefel y niwed yn llai (Bardall, 2013). Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y llwyfannau hyn wedi cynyddu'r ddadl ynghylch pa mor agored i niwed yw gwleidyddion, gan eu bod bellach yn fwy adnabyddus a'i bod hi'n haws i ddinasyddion gael gafael arnyn nhw. Mae hyn yn dda ar gyfer tryloywder a chyfathrebu uniongyrchol, ond mae agweddau negyddol i hyn. Mae dystiolaeth bod pob un o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n wahanol gan wleidyddion a dinasyddion i gyfathrebu (Almeida, 2018), ond mae hefyd wedi

cynyddu mynediad dinasyddion at wleidyddion ac at eu gwybodaeth breifat ac, yn ei dro, mae wedi cynyddu profiad gwleidyddion o lefaru treisgar.

Astudiaeth ynghylch trais tuag at ymgeiswyr yn y DU (Collignon, 2020): Data o arolwg etholiad cyffredinol 2017



- Mae **menywod** 9% yn fwy tebygol na dynion o ddioddef aflonyddu.
- Mae **ymgeiswyr iau** yn fwy tebygol o ddioddef ymddygiad bygythiol ac mae'r tebygolrwydd hwn yn gostwng gydag oedran.
- Mae **ymgeiswyr blaenllaw** 9% yn fwy tebygol o gael eu haflonyddu nag ymgeiswyr nad ydynt yn rhai blaenllaw.
- Cyfryngau cymdeithasol:
 - **Derbyniodd 29% gyfathrebiadau amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol** o leiaf unwaith yn ystod yr ymgyrch (34% o'r menywod/26% o'r dynion).
 - Derbyniodd 23% o'r ymgeiswyr negeseuon amhriodol o leiaf unwaith yn ystod yr ymgyrch drwy ebost (28% o'r menywod/20% o'r dynion).
- Dywedodd 5% o'r menywod eu bod wedi cael **eu bygwth dair gwaith neu ragor** yn ystod yr ymgyrch (3% o'r dynion).
- **Menywod oedd pob ymgeisydd a ddioddefodd aflonyddu rhywiol.**
- Cadarnhaodd **32% o'r ymgeiswyr** eu bod yn teimlo'n gymharol ofnus i ofnus iawn o ganlyniad i aflonyddu a bygwth.
- **Roedd menywod ac ASau presennol yn fwy ofnus.**

Mae Cyngor Caerdydd wedi ceisio bod yn rhagweithiol yn y maes hwn drwy gyflwyno Cod Cyfryngau Cymdeithasol. Ei nod yw gosod disgwyliadau ynghylch bod cynghorwyr yn barchus wrth ymgysylltu ar-lein a'u bod yn ymddwyn mewn modd tryloyw. Ar ôl adroddiadau blaenorol am fwlio gan aelodau Cyngor Caerdydd yn erbyn ei gilydd,¹⁷ mae hyn yn gam tuag at wleidyddion yn 'arwain drwy esiampl'.

¹⁷ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-41110602>

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod patrymau ar sail rhyw a hil i drais yn erbyn gweithredwyr gwleidyddol, gyda menywod naill ai'n profi (yn feintiol) mwy o ymosodiadau, a/neu (yn ansoddol) ymosodiadau sy'n fwy trefnus ac ar sail rhywedd. Mae astudiaeth o drais yn y cyfryngau cymdeithasol yn erbyn ASau Sweden, er enghraifft, yn dangos bod menywod yn wynebu ymosodiadau mwy ar sail rhyw a rhywedd ac yn teimlo bod eu 'hasiantaeth bersonol' yn mynd yn fwy cyfyngedig o ystyried eu profiad ar-lein (Erikson et al., 2021). Mae menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn dioddef mwy o fynegi casineb na menywod gwyn:

"Er mai dim ond 8.8% o ASau benywaidd sydd yn San Steffan, canfuwyd mai ASau benywaidd Asiaidd sy'n derbyn y trydariadau mwyaf sarhaus fesul AS. (...) Mae ASau benywaidd Asiaidd yn derbyn 132 o drydariadau sarhaus fesul AS. Mae hyn 30% yn uwch na'r ASau benywaidd gwyn sy'n derbyn 92 o drydariadau camdriniol fesul AS. O ystyried y lefelau anghymesur o uchel o gam-drin yn erbyn Diane Abbott, canfuwyd bod ASau benywaidd du yn derbyn 2,781 o drydariadau camdriniol fesul AS — ond pan na fydd Diane Abbott yn cael ei chynnwys yn y dadansoddiad — mae'r canfyddiadau'n dangos bod ASau benywaidd du yn cael 81 o drydariadau camdriniol fesul AS." (Amnest Rhyngwladol, 2017)

Er mwyn atal a rhwystro trais gwleidyddol ac etholiadol, dylai gwledydd ystyried (Ballington et al., 2017):

- **Materion mapio:** Mae trais gwleidyddol yn gyd-destunol; dylai gwledydd fod yn ymwybodol o'r materion, y gweithredwyr, a sut mae gweithredoedd treisgar yn digwydd
- **Camau gweithredu er mwyn cynnwys:** Cynnwys camau gweithredu penodol yn erbyn trais (yn erbyn pobl o grwpiau lleiafrifol) mewn canllawiau etholiadol
- **Datblygu diogelwch:** Darparu mesurau diogelwch i'r grwpiau sydd wedi'u targedu, gyda hyfforddiant ychwanegol i'r heddlu
- **Ymgysylltu â'r pleidiau gwleidyddol:** Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i gymryd rhan mewn eiriolaeth, codi ymwybyddiaeth, diweddarau rheoliadau pleidiau tuag at gynwysoldeb a sicrhau gorfodaeth
- **Ymgysylltu â'r gymdeithas:** Codi ymwybyddiaeth am y rhwystrau i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, gan gynnwys trais, a'r pwysau y mae gwleidyddion yn eu hwynebu.

Mae'r ystyriaethau hyn ar gyfer atal trais yn ystod etholiadau wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod etholiadol yn Nhabl 5.

Tabl 5: Atal trais yn ystod etholiad, yn ôl y cyfnod etholiadol

Cyfnod cyn yr etholiad	Cyfnod yr etholiad	Cyfnod ar ôl yr etholiad
- Datblygu a diwygio cyfreithiau a pholisïau sy'n diffinio ac yn diogelu rhag trais yn erbyn menywod mewn etholiadau (TEME) Addasu neu ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn nodi a darparu mesurau ynghylch diogelu rhag ar ddiogelu rhag TEME Annog protocolau a rheoliadau i'w mabwysiadu gan Gyrff Rheoli Etholiadol (EMBs) i atal TEME yn y broses etholiadol Datblygu codau ymddygiad etholiadol ac i bleidiau gwleidyddol er mwyn mynd i'r afael â TEME - Darparu hyfforddiant sensitifrwydd rhywedd i weinyddwyr etholiadol, barnwyr, cyfreithwyr	- Cynyddu mynediad at gyfiawnder etholiadol i fenywod, a mynd ar drywydd cyfiawnder i ddioddefwyr yn ogystal ag erlyn y rhai sy'n cyflawni - Sefydlu dulliau o adrodd yn ddiogell/yn gyfrinachol am achosion o TEME	Sicrhau bod cyfreithiau a pholisïau sy'n ymwneud â TEME yn cael eu gweithredu - Adolygu cyfreithiau a pholisïau a gwneud addasiadau yn ôl yr angen - Dyfarnu ar anghydfodau etholiadol sy'n ymwneud â TEME Erlyn achosion o gam-drin hawliau dynol yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth - Addasu ac integreiddio adnoddau newydd i ddioddefwyr i wasanaethau presennol ar gyfer TEME

Ffynhonnell: addaswyd o Ballington et al., 2017

Dyma'r mesurau penodol y gellir eu hawgrymu ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- Casglu gwybodaeth am y materion a wynebwr gan ddarpar wleidyddion a thrafodaeth am yr hyn y gellid ei wneud i ymateb i hyn, gan nad oes llawer o ddata ar gael.
 - Ystyried datblygu arolwg, sy'n debyg i 'Arolwg Diogelwch y Gwleidyddion' Sweden, sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd, gyda gwleidyddion cenedlaethol a lleol.

- Gwella hyfforddiant heddluoedd yng Nghymru ynghylch trais ar y rhyngwrdd.
- Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi'u targedu at y gymdeithas ac at bleidiau gwleidyddol i gynyddu nifer yr ymgeiswyr o grwpiau wedi'u hymleiddio.

Trafodaeth a chrynodeb

Cyflwynodd yr adran hon dystiolaeth ynghylch a allai'r posibilrwydd o drais atal unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad.

Mae gwleidyddiaeth ddeddfwriaethol yn arfer adeiledig ac mae wedi'i mowldio dros ganrifoedd (Pitkin, 1972). Mae eithrio grwpiau penodol o ofodau cyhoeddus gan gynnwys gwleidyddiaeth wedi creu cylchoedd dieflig o ymleiddio (Puwar, 2004) ac eithrio, a hynny drwy rwystrau anffurfiol (Gomes, 2019; Phillips, 1995). Yn eu tro, mae prosesau cynhwysiant graddol wedi arwain at gamau adweithiol, y cyfeirir atynt fel adlach, a all droi'n drais. Ar y llwybr o fod yn ddinesydd i fod yn wleidydd, mae menywod, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac unigolion LHDTCRh+ yn tueddu i ddioddef gweithredoedd treisgar systematig.

Mae trais mewn gwleidyddiaeth ac, yn benodol, trais etholiadol, yn fater sy'n effeithio ar ddemocratiaeth fyd-eang (Birch et al., 2020; Höglund, 2009; Opitz et al., 2013), ac ni ddylai unrhyw wleidyddion na darpar wleidydd wynebu'r bygythiad o drais wrth wasanaethu eu cymuned. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod anghydraddoldebau systemig yn y gymdeithas yn cael eu hailadrodd ym maes gwleidyddiaeth. Mae hyn yn golygu bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn fwy tebygol o wynebu trais a chael eu targedu oherwydd eu hunaniaeth a'u presenoldeb yn y maes gwleidyddol.

Mae'n ymddangos bod trais yn un o nifer o ffactorau y gallai darpar wleidyddion eu hystyried wrth benderfynu a ddylen nhw geisio cael eu hethol. I raddau helaeth, nid yw maint y broblem yng Nghymru yn hysbys, y tu hwnt i adroddiadau cynyddol yn y cyfryngau am drais yn erbyn gwleidyddion Cymru,¹⁸ felly mae lle i ymchwilio ymhellach a gweld beth yw hyd a lled y mater er mwyn llywio mesurau ataliol ac ymatebion effeithiol.

¹⁸ <https://nation.cymru/news/councillors-plea-for-kinder-politics-as-they-reveal-horrific-abuse/>

Ariannu ymgyrchoedd a'r gwariant arnyn nhw

Crynodeb

- Mae digon o gyfle i Lywodraeth Cymru wella ei darpariaeth o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch etholiadau ac ariannu ymgyrchoedd.
- Byddai hyn yn gofyn am fesurau sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol, ond sy'n newid arferion cyfredol o ran sut mae pleidiau gwleidyddol yn adrodd am wybodaeth.
- Dylid cyfuno arferion gorau mewn data agored â rhyngwynebau hawdd eu defnyddio er mwyn annog mynediad i'r cyhoedd.
- Prin yw'r data cyfanredol o'r dystiolaeth sy'n gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng tryloywder ac atebolrwydd gwell ynghylch ariannu ymgyrchu a bod y cyhoedd yn ymddiried ac yn cymryd rhan yn fwy. Fodd bynnag, byddai gwelliannau yn y meysydd hyn yn gwella mynediad ac mae sefydliadau rhyngwladol yn eu hargymell. Mae enghreifftiau o arfer da i Lywodraeth Cymru ac eraill eu hystyried.

Cwestiynau ymchwil

Adolygwyd y dystiolaeth ar ariannu ymgyrchoedd a'r gwariant arnynt yn unol â'r cwestiwn ymchwil canlynol:

1. Pa ddulliau ychwanegol, os oes rhai o gwbl, o fod **yn agored ac yn dryloyw** o ran ariannu ymgyrchoedd a gwariant pleidiau gwleidyddol **yn ystod etholiadau Cymru** y gellir eu cymryd sy'n gyson yng nghyd-destun y DU gyfan?

Cyflwyniad

Cefnogwyd mentrau sy'n ymwneud â thryloywder ariannu gwleidyddol gan sefydliadau rhyngwladol fel y Sefydliad Rhyngwladol dros Ddemocratiaeth a Chymorth Etholiadol (IDEA) (Scarrow, 2016; Carolan a Wolf, 2017; Wolf, 2021), OECD (2016), a Grŵp Gwladwriaethau yn erbyn Llygredigaeth (GRECO) Cyngor

Ewrop (Tonhäuser a Stavenes, 2020), o ystyried eu potensial i leihau cyfleoedd ar gyfer llygredigaeth ac i gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r potensial hwn yn dibynnu ar newidynnau cymdeithasol a gwleidyddol eraill sy'n effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Prin yw'r ymchwil sy'n dadansoddi effaith tryloywder data ariannu gwleidyddol ar ymddiriedaeth y cyhoedd (Scarrow, 2016; Wolf, 2021). Mae ymchwilwyr wedi tynnu sylw at yr angen am ymchwil pellach yn y maes hwn:

"[Os] un o ddibenion arfaethedig rheoleiddio ariannu gwleidyddol yw meithrin agweddau cyhoeddus mwy cadarnhaol tuag at lywodraethau a democratiaeth etholiadol, fel yr awgrymir yn aml, yna mae angen mwy o ymchwil arnom ynghylch a yw rheolau penodol, neu efallai rai dulliau o wneud rheolau, yn dangos mwy o lwyddiant o ran cryfhau hyder y cyhoedd. " (Scarrow, 2016, t.10)

Serch hynny, ceir enghreifftiau o wledydd eraill o ran sut y maent wedi ceisio cynyddu tryloywder ac atebolrwydd. Er enghraifft, yn Norwy, gweithiwyd ymlaen llaw ar dryloywder ariannu gwleidyddol, yn dilyn trafodaethau rhyngwladol ac argymhellion gan GRECO a oedd yn cynnwys 'gofynion datgelu ar gyfer gwariant, asedau a dyledion pleidiau, adrodd cyflawn ac ar wahân ynghylch ariannu ymgyrchoedd a rheolaidd mewn fformat safonol, yn ogystal â sancsiynau mwy cynhwysfawr, gan gynnwys rhybudd ffurfiol, cadw ariannu'r wladwriaeth yn ôl yn rhannol neu'n llwyr, sancsiynau gweinyddol a throseddol' (Tonhäuser a Stavenes, 2020, t. 590).

I'r gwrthwyneb, yn 2014, ar ôl etholiad agos yn Indonesia a honiadau o lygredigaeth o'r ddwy ochr, cydsyniodd y llywodraeth i alwadau gan bleidiau gwleidyddol a'r boblogaeth, a rhyddhaodd wybodaeth sydd ei hangen i greu system agored ar gyfer canlyniadau etholiadau, mewn prosiect o'r enw *Kawal Pemilu* neu 'Diogelu'r Etholiad'¹⁹ (Carolan a Wolf, 2017, t. 28). O ystyried bod angen ymateb cyflym a bod diffyg gwybodaeth hygyrch, sicrhodd gwirfoddolwyr fod y data'n cael eu digideiddio a'u darparu,²⁰ gan ddangos bod diddordeb gan y cyhoedd mewn materion gwleidyddol ac mewn gwella'r prosesau i greu ymddiriedaeth (Graft et al. 2016). Oherwydd ei natur ar lawr gwlad a'i ariannu torfol, dim ond \$54 UD a gostiodd y prosiect, digon ar gyfer gweinydd parth a chynnal (ibid., t. 8). Yn bwysig, er bod gan y prosiect bartneriaeth gyda'r llywodraeth ac achrediad ganddi, ymdrech gan y

¹⁹ Gweler: <https://odimpack.org/case-indonesias-kawal-pemilu.html>

²⁰ Roedd rhywfaint o ddata'n bodoli ar ffurf pdf ac roedd rhai wedi'u hysgrifennu â llaw. Aeth gwirfoddolwyr yn Indonesia a ledled y byd ati i ddigideiddio'r hyn oedd ei angen a gweithio o'r pdfs i greu data yr oedd modd eu defnyddio.

gymdeithas sifil yw hi o hyd ac **nid yw'n** cynnwys data ariannol. Dengys y canfyddiadau i'r fenter hon gael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth y cyhoedd, ac yn ei sgil, cafodd effaith ar gyfranogiad a grymuso dinasyddion:

"Y tu hwnt i'w effaith uniongyrchol ar etholiadau 2014, mae Kawal Pemilu hefyd wedi cael effaith gyffredinol ar broses etholiadol a hinsawdd wleidyddol Indonesia, gan helpu i gynyddu tryloywder ac ymddiriedaeth y cyhoedd. (...) Mae'r ymddiriedolaeth gyhoeddus fwy, mewn sawl ffordd, wedi troi'n ymdeimlad newydd o gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid ym mhroses wleidyddol Indonesia." (Graft et al., 2016, t.10)

Mae'r dystiolaeth o'r Deyrnas Unedig yn awgrymu bod dinasyddion yn gofidio am ariannu gwleidyddol. Yn 2008, dangosodd arolwg YouGov fod 87% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai 'gwleidyddiaeth yn fwy gonest pe bai'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol adrodd am roddion ac am wariant o unrhyw swm' ac roedd 67% yn cefnogi'r farn y dylai fod terfyn ar faint y gall unrhyw un person ei roi i blaid wleidyddol. Dim ond 22% a gytunodd neu a gytunodd yn gryf fod 'ariannu pleidiau'r DU yn lân at ei gilydd' (vanHeerde-Hudson a Fisher, 2013, t. 50). Yn ogystal, dywedodd 21% o ymatebwyr Astudiaeth Etholiadau Prydain fod ariannu'r pleidiau o bwysigrwydd 'mawr' yn 2011, canran a gododd i 33% yn 2016. Mewn astudiaeth ddiweddarach, credai 78% o'r ymatebwyr fod rhoddion i bleidiau'n cael eu rhoi i gael mynediad a dylanwad neu ffafrau a thriniaeth arbennig (Goddard, 2016). Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y cyhoedd yn ystyried bod etholiadau'n ddrutach nag ydynt ac nad yw pobl yn ymwybodol o faint sy'n dod o roddion preifat (vanHeerde-Hudson a Fisher, 2013).

Yn y cyd-destun hwn, ac yng nghwmpas yr adroddiad hwn, mae datblygu llwyfan sy'n galluogi dinasyddion Cymru i gael gafael ar ddata gwleidyddol yn fesur a allai gael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae angen i fframwaith ar gyfer rheoli ariannu gwleidyddol fod yn agored, yn atebol ac yn dryloyw er mwyn datblygu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd (Hamada ac Agrawal, 2020; Kabullah et al., 2020; OECD, 2016). Mae fframwaith safonol yn golygu llai o le i amau, i wneud camgymeriad neu i lygru, o osod ffiniau clir a sefydledig.

Mae angen llwybr clir ar gyfer adrodd am ariannu ymgyrchoedd a ffordd o sicrhau bod data ar gael yn hawdd i'w harchwilio gan sefydliadau'r llywodraeth, sefydliadau cymdeithas sifil, y cyfryngau, a'r cyhoedd hefyd.

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos bod hwn yn faes penodol lle gall Llywodraeth Cymru sicrhau newid cadarnhaol a buan. Mae'r adran

ganlynol yn dangos enghreifftiau o arfer da o wledydd eraill ac yn amlinellu'r hyn y gallai Cymru ei gyflwyno yn y maes hwn.

Arferion data da

Mae'r datgelu data'n rhagweithiol yn cynnwys pedair elfen (Pfeffer a Speck, 2008). Sef:

- Amserol
- Dibynadwy
- Hygyrch
- Dealladwy


Mae'r Mynegai Data Agored Byd-eang (GODI) yn amlinellu'r nodweddion arfer da canlynol ar gyfer data y mae gwladwriaethau yn darparu mynediad atyn nhw:

- Dylai'r data hefyd fod **ar gael mewn fformatau agored ac darllenadwy i beiriannau**. Mae hyn yn golygu cael data mewn ffeiliau sy'n agor mewn meddalwedd am ddim.²¹
- Dylai'r data fod ar gael ar gyfer **lawrlwythiadau 'swp' neu 'swmp'**, hynny yw, dylai unigolion allu lawrlwytho mwy nag un achos neu gyfnod o amser (e.e. ariannu ymgyrch un ymgeisydd neu un cylch ymgyrchu).
- Dylai'r data fod yn gyfredol gyda'r datblygiadau diweddaraf. Yn achos data sy'n cael eu diwygio o bryd i'w gilydd, rhaid ychwanegu diweddariadau a nodi dyddiadau.
- Dylai'r data gael eu gwneud yn hysbys a dylent fod ar gael yn rhwydd.
- Ni ddylai fod unrhyw gost yn gysylltiedig â lawrlwytho a defnyddio data.

Mae canlyniadau etholiadau ym Mhrydain Fawr wedi cael sgôr o 0% ar gyfer data agored gan y GODI, tra bod 'gwariant y llywodraeth' wedi cael 70% (gweler Ffigur 16). Mae'r sgoriau hyn yn cyfeirio at y paramedrau a grybwyllir uchod – mae'r sgoriau'n dibynnu ar ba mor dda y mae gwledydd yn bodloni'r gofynion ym mhob maes a ddadansoddwyd. Gan nad yw Prydain Fawr yn bodloni un ohonynt yn y categori 'canlyniadau etholiadau', cafodd sgôr o 0%. Nid oes gan y GODI sgôr ar gyfer ariannu ymgyrchoedd.

²¹ Rhai enghreifftiau o fformatau agored a darllenadwy i beiriannau yw gwerthoedd wedi'u gwahanu â choma (comma-separated values CSV), gwerthoedd wedi'u gwahanu â thab (tab-separated values TSV), neu Nodiant Gwrthrych JavaScript (JavaScript Object Notation JSON).

Ffigur 16: Tudalen Mynegai Data Agored Byd-eang ar gyfer Prydain Fawr



Ffynhonnell: <https://index.okfn.org/place/gb/>

Ariannu ymgyrchoedd

Nid oes unrhyw dystiolaeth gyfanredol ynghylch sut mae gwledydd eraill yn adrodd am ariannu ymgyrchoedd a'r effeithiau ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Gallai mesurau data agored fod yn rhan o ddiwygiadau sy'n ceisio gwneud y system gyfan yn fwy tryloyw, atebol a chynhwysol. Efallai y bydd gan wlad system gadarn o adrodd am ariannu gwleidyddol, ond os nad yw ei dinasyddion yn ymwybodol am ei bodolaeth, ni fydd yn gwneud fawr ddim i wella eu canfyddiad o dryloywder gwleidyddol. Yn yr adran hon, trafodir y ffyrdd y mae gwledydd wedi cynllunio eu llwyfannau, gyda manteision ac anfanteision yn cael eu gwerthuso yn unol â nodau data agored.

Mae Colombia, drwy wefan **Cuentas Claras**, yn cynnig cyfle i ddinasyddion gael gafael ar wybodaeth fanwl am bob ymgeisydd, ond nid yw'n cynnig y rhain mewn lawrlwythiadau swp ac mewn fformatau agored, darllenadwy i beiriannau. Mae hyn yn atal newyddiadurwyr, ymchwilyr, archwilyr annibynnol, a hyd yn oed cyrff rheoli etholiadol rhag asesu'r wybodaeth yn ddigonol ar lefel gyfanredol (Scarrow, 2016).

Mae gan y **Comisiwn Etholiadol Ariannol** yn yr Unol Daleithiau yr opsiwn o wneud gwiriadau unigol ar ymgeiswyr neu bwyllgorau a rhoddwyr unigol, a lawrlwythiadau swp ar gyfer crynodeb o'r cyfansymiau a godwyd ac a wariwyd ar fformat .CSV.

Mae gwefan yr Uwch Lys Etholiadol yn Brasil yn cynnwys **rhyngwyneb hawdd ei ddefnyddio** ac mae ganddi **ystorfa o ddata** etholiadol gan ddefnyddio ffeiliau .CSV. Mae data ar ymgeiswyr a chanlyniadau etholiadau ar gael o 1933 a data ar ariannu ymgyrchoedd ers 2002. Mae hyn yn cynnwys arian a godir ac a wariwyd yn ogystal â data ar gyfer pob gwariant (e.e. trafnidiaeth, gwasanaethau bwyd ac ati, gyda gwybodaeth ar gyfer pob cwmni a ddefnyddiwyd).

Mae gwefan **Pwyllgor Goruchwylio Ariannu Pleidiau Gwleidyddol** Estonia yn cynnig lawrlwythiadau unigol fesul sefydliad neu etholiad. Maent hefyd wedi'u rhannu yn ôl referniw a gwariant. Unwaith eto, heb opsiwn lawrlwytho swp, byddai angen i ddefnyddwyr lawrlwytho pob ffeil yn unigol er mwyn creu darlun cyfan o etholiad. Nid yw'r rhyngwyneb yn hawdd ei ddefnyddio felly mae'n anodd cael gafael ar ddata cyfanredol oni bai bod gan y defnyddiwr sgiliau digidol ar lefel uchel.

Mae system Norwy yn seiliedig ar y wefan ystadegau swyddogol, **Statistisk sentralbyrå**. Mae'n cynnig data cyfanredol ar etholiadau penodol ac ar ariannu gwleidyddol cyffredinol y gall defnyddwyr eu lawrlwytho. Gellir dod o hyd i ddata mwy penodol yn **Partifinansiering**, ond ni ellir gwneud y cysylltiad rhwng canlyniadau ac ariannu etholiadau gan nad yw'r data hynny ar gael y tu hwnt i lefel y blaid. Nid oes modd lawrlwytho swp o ddata.

Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol yn y Deyrnas Unedig unrhyw fesurau adrodd data systematig, ond mae ganddo **Gronfa Ddata Ariannu Gwleidyddol** (gweler Ffigur 17). Mae'n bosibl lawrlwytho ffeil .CSV ond mae'r paramedrau'n aneglur ac mae angen i'r defnyddiwr 'olrhain' yr opsiwn. Nid oes unrhyw wybodaeth am wariant sy'n benodol i ymgeiswyr ac eithrio rhoddion misol i aelodau unigol ac nid oes modd hidlo'r data fesul gwlad. Hefyd, mae'r data'n hen, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth am etholiadau Cymru 2021.

Mae'r adroddiad Diweddar ar *Reoleiddio Ariannu Etholiadau*, gan Bwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus Llywodraeth y DU yn argymhell mai dim ond gwariant etholiadol dros £250,000 sydd angen ei gyhoeddi, cyn pen chwe mis ar ôl yr etholiad neu'r refferendwm a dim ond y rhai sy'n gwario dros y swm hwnnw sy'n gorfod gwneud hynny'n electronig.

Ffigur 17: Cronfa Ddata Ariannu Gwleidyddol y Comisiwn Etholiadol



Sut y gall Cymru wella ar hyn?

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu neu greu ei phlatform data ariannu ymgyrchoedd ei hun sy'n cynnwys:

- Gwybodaeth wedi'i diweddarau am yr etholiadau diweddaraf
- Data ariannol yn cynnwys etholiadau lleol
- Canlyniadau etholiadau o etholiadau lleol a chenedlaethol
- Yr holl adroddiadau am ariannu, beth bynnag yw'r swm.

Yn seiliedig ar enghreifftiau ac argymhellion rhyngwladol gan sefydliadau fel IDEA Rhyngwladol ac OECD, dylai'r platform hwn:

- Ddarparu rhyngwynebau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n galluogi dinasyddion i ddelweddu data cyfanredol ac i chwilio am wleidyddion unigol
- Darparu setiau data trwydded agored, darllenadwy gan beiriannau, i ddefnyddwyr fel y gallan nhw werthuso'r data eu hunain
- Cynnwys gwybodaeth fanwl am ryw, ethnigrwydd, oedran, crefydd, a phrofiad gwleidyddol gwleidyddion, ymhlith nodweddion eraill, fel bod modd ymchwilio i broffil gwleidyddion Cymru
- Coladu'r data uchod gyda chanlyniadau etholiadau

Er mwyn darparu'r data hyn i'r cyhoedd, byddai angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a'r pleidiau i sicrhau eu bod yn cael eu mewnbynnu'n ddigonol mewn system. Mae'r rhan fwyaf o wledydd yn dibynnu ar systemau adrodd a throsglwyddo data ar-lein (Hamada ac Agrawal, 2020; Wolf, 2021) sy'n cael eu hystyried fel yr offeryn gorau er mwyn gwarantu data o safon (Jones, 2017). Gellid

ystyried a ddylai cyflenwi gwybodaeth am ymgeiswyr a gwybodaeth ariannol fod yn ofynnol er mwyn gallu cymryd rhan yn etholiadau Cymru.

Trafodaeth a chrynodeb

Mae manteision democrataidd clir i fod yn fwy agored a thryloyw mewn gwleidyddiaeth, yn benodol ym maes ariannu ymgyrchoedd (Norris a van Es, 2016). Yn eu plith mae uniondeb etholiadol, mynediad at ddata i lywio datblygiad polisi mewn arferion cynhwysol (er enghraifft, lle mae anghydraddoldebau parhaus mewn ariannu ymgyrchoedd) (Gomes, 2021), a chyfranogiad dinasyddion.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yma yn awgrymu bod meysydd lle gall Llywodraeth Cymru (a'r Comisiwn Etholiadol) wella, gan gynnwys casglu data a darparu data hygrych fel bod modd i ddinasyddion, y cyfryngau ac ymchwilwyr ddadansoddi data etholiadol.

Yn y pen draw, bydd y broses hon hefyd yn galluogi Lywodraeth Cymru i roi'r arfau i bleidiau gwleidyddol weithio ar fesurau mwy cynhwysol wrth iddynt ddod i ddeall patrymau anffurfiol o ymyleiddio sy'n atal rhai grwpiau rhag cael mynediad at swydd etholedig, megis gwahaniaethau mewn ariannu ymgyrchoedd.

Cyrff rheoli etholiadol (EMBs)

Drwy gydol yr ymchwil hon, mae cyrff rheoli etholiadol (EMBs) wedi ymddangos fel gweithredwyr allweddol wrth liniaru'r materion a godwyd yma neu wrth eu hatal rhag codi. Pan fyddant yn gweithredu'n gyson (yn hytrach na dim ond yn ystod cyfnod etholiadau), mae'r EMBs yn **bwynt cyfeirio** i bleidiau, gwleidyddion, llywodraethau a'r gymdeithas er mwyn **cynhyrchu gwybodaeth, rheoleiddio ac atal materion sy'n** ymwneud ag etholiadau. Gall gweithredu a sefydlu EMBs fod yn wahanol mewn nifer o ffyrdd:

- **Annibyniaeth:** Gall EMBs fod yn gysylltiedig ag un o ganghennau'r llywodraeth, sy'n effeithio ar ei hymreolaeth i wneud penderfyniadau.
- **Parhaol neu dros dro:** Gallai'r EMBs weithredu ar adegau penodol yn unig, fel arfer i drefnu ac i oruchwylio prosesau etholiadol.
- **Canoli:** Efallai y bydd gan wledydd sydd â mwy nag un lefel o lywodraeth EMBs lleol/rhanbarthol.

O ran arferion etholiadol arloesol, gan gynnwys pleidleisio cynnar, EMBs yw'r cyrff sydd â'r dasg o ddatblygu rheolau a fframweithiau newydd, yn ogystal â chynhyrchu gwybodaeth am gynlluniau peilot. Maent yn sicrhau safoni prosesau etholiadol ar gyfer pob dinesydd (Rojas a Müller, 2014).

Corff rheoli etholiadol yw'r pwynt cyfeirio ar gyfer darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr a gwleidyddion a allai fod yn profi trais. Gall hefyd gymryd rhan weithredol mewn ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac atal (Ballington et al., 2017; Birch a Muchlinski, 2018).

O ran ariannu ymgyrchoedd a thryloywder, mae rôl logistaidd yr EMBs yn fwy amlwg fyth, gan eu bod yn gyfrifol am dderbyn adroddiadau, mewnbynnu data, cynnal setiau data, ac archwilio cyfrifon (OECD, 2016).

Mae Tabl 6 yn rhoi crynodeb o rôl yr EMBs drwy gydol y cylch polisi.

Tabl 6: Cylch polisi etholiad a rôl EMBs

Cyfnod cyn-etholiadol	Cyfnod etholiadol	Cyfnod ôl-etholiadol
Cynllunio etholiadau: cyllidebau ac ariannu, calendr a chynlluniau gwaith gweithredol etholiadol, logisteg a diogelwch, recriwtio staff, caffael Hyfforddi: datblygu gweithdrefnau, hyfforddiant gweithredol i swyddogion etholiadol Gwybodaeth: addysgu pleidleiswyr a dinasyddion, cyhoeddusrwydd, cyswllt â rhanddeiliaid, achredu sylwedyddion Cofrestru: ariannu pleidiau, cofrestru pleidiau ac ymgeiswyr, cofrestru pleidleiswyr	Enwebu: ymgeiswyr, cod ymddygiad Ymgyrchu: mynediad i'r cyfryngau, cydgysylltu ymgyrchoedd, datrys anghydfodau Pleidleisio: trefnu blychau pleidleisio, pleidleisio, arferion etholiadol arloesol Canlyniadau: cyfrif, tablau canlyniadau, cwynion ac apeliadau, canlyniadau swyddogol, cyhoeddi data	Adolygu: archwiliadau a gwerthusiadau, cynnal a chadw data Diwygio: gwneud diwygiadau a chynnal ymchwil iddynt, cynigion diwygio cyfreithiol, diwygio'r EMBs Strategaeth: uwchraddio'r gofrestr pleidleiswyr, rhwydweithio, cryfhau sefydliadau, datblygiad proffesiynol

Ffynhonnell: addaswyd o Onishi, 2012

Casgliad

Casglodd yr adroddiad hwn dystiolaeth ynghylch gwahanol ddulliau o weinyddu etholiadol a sut y gallai eu diwygio effeithio ar nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd, amrywiaeth yr ymgeiswyr, a thryloywder wrth ariannu ymgyrchoedd. Canfuwyd bod ymgysylltu gwleidyddol yn berthnasol ym mhob un o'r meysydd hyn, gan y bydd dinasyddion sy'n teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac wedi'u grymuso yn tueddu i gymryd rhan yn fwy. Mae gweithgarwch gwleidyddol, gan gynnwys pleidleisio, yn ffurfio arfer, ac mae mesurau a gymerir yn awr yn debygol o arwain at ganlyniadau yn y tymor hirach. Mae pleidleisio cyfleus yn debygol o effeithio ar ddinasyddion sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth ond sy'n ei chael yn anodd ei chynnwys yn eu bywydau. Hefyd mae'n bwysig ystyried y rhesymau heblaw am gyfleustra dros ymddieithrio.

Mae ymchwil yn dangos bod y profiadau mwyaf llwyddiannus o **gyrff rheoli etholiadol** pan fyddant yn rhagweithiol drwy gydol y flwyddyn (yn y cyfnod cyn-etholiadol a amlinellir yn Nhabl 6) yn ogystal ag ar ôl yr etholiad. Mae hyn yn golygu gweinyddu casglu, rheoli ac allbynnu data, ymgysylltu â dinasyddion, cynnal ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth, a gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i sicrhau cynwysoldeb o ran ymgeiswyr a thryloywder data gwell. Mae arfer da o bob rhan o'r byd y byddai'n bosibl ei efelychu yng Nghymru.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob un o bedair adran yr adroddiad isod, gydag argymhellion pan fo hynny'n berthnasol.

Pleidleisio cynnar

Dangosodd y dystiolaeth fod pleidleisio cynnar yn cynnig ffordd bosibl o ymateb yn fwy i anghenion pleidleiswyr. Mae hyn yn dibynnu ar ba fesurau sy'n cael eu cymryd ar y cyd, a gallent gynnwys y canlynol:

- Cyfnodau pleidleisio cynnar sy'n cynnwys dyddiau'r wythnos a phenwythnosau (e.e., o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn)
- Cyflwyno cofrestru ar yr un diwrnod a chaniatáu i ddinasyddion gofrestru i bleidleisio neu i gywiro eu gwybodaeth gofrestru pan fyddant yn mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio
- Gosod safleoedd pleidleisio gan fod yn ymwybodol o anghenion pobl o ran pellter a mynediad at gludiant a'r posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau eraill â phleidleisio

Arferion etholiadol arloesol

Arferion etholiadol arloesol eraill a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn oedd pleidleisio drwy'r post, Canolfannau Pleidleisio ar Ddiwrnod yr Etholiad, pleidleisiau wedi'u llenwi ymlaen llaw, safleoedd pleidleisio heb fod yn draddodiadol, pleidleisio ar ddiwrnodau gorffwys, oriau pleidleisio estynedig, a phleidleisio hygyrch, gan gynnwys blychau pleidleisio electronig all-lein. Dylid ystyried yr arferion arloesol hyn fel ffyrdd o foderneiddio'r broses etholiadol, gan ddeall bod hyd yn oed enillion bach yn ganlyniadau cadarnhaol.

O ystyried y pryder ynghylch pleidleisiau post a wrthodwyd a materion gyda llofnodion a dyddiadau geni nad ydynt yn cyfateb, yn ogystal â thystiolaeth sy'n dangos bod pleidleisiau wedi'u llenwi ymlaen llaw wedi dangos llwyddiant cymedrol yn y nifer sy'n pleidleisio, argymhellir y dylid:

- Ystyried dadansoddi'r defnydd o bleidleisiau wedi'u llenwi ymlaen llaw. Pleidleisiau yw'r rhain sydd eisoes yn cynnwys enw a dyddiad geni'r pleidleisiwr
- Cynnal a chadw'r gofrestr etholiadol fel mater o drefn, gydag ymgyrchoedd i wahodd pleidleiswyr i gywiro eu cofrestriad rhag ofn bod enwau'n cael eu newid
- Cynnig ffyrdd i bleidleiswyr 'drwsio' pleidleisiau wedi'u difetha, er enghraifft eu dychwelyd i safle pleidleisio a phleidleisio'n bersonol

Canlyniadau cymysg a gafwyd i fesurau i ganiatáu i bleidleiswyr bleidleisio mewn unrhyw safle pleidleisio neu i greu safleoedd pleidleisio heb fod yn draddodiadol. Mae canolfannau pleidleisio'n tueddu i fod â chiwiau mwy a staff sydd wedi'u gorweithio os nad ydynt yn cael eu cefnogi gan safleoedd pleidleisio eraill. Mae hyblygrwydd cael opsiwn i benderfynu ble i bleidleisio yn well ar gyfer gwahanol arferion a galluoedd mynediad pleidleiswyr. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried:

- Dadansoddi'r defnydd o bleidleisio hyblyg (h.y., peidio â dynodi un safle pleidleisio i bob pleidleisiwr) o ran logisteg cael y gofrestr etholiadol ym mhob un a gallu gwirio statws y pleidleisiwr
- Cynnal dadansoddiadau logistaidd a diogelwch ar gyfer defnyddio safleoedd pleidleisio heb fod yn draddodiadol. Er enghraifft, os defnyddir ysgolion fel safleoedd pleidleisio ar gyfer nifer o ardaloedd pleidleisio, mae angen penderfynu a fyddai'r ysgolion yn cau ar y dyddiau hynny; os mai dim ond myfyrwyr/staff a fydd yn cael pleidleisio yno; beth fyddai goblygiadau hyn ynghyd â phleidleisio hyblyg?

- Sefydlu safleoedd pleidleisio mewn ardaloedd lle mae symudedd pleidleiswyr yn broblem, megis cartrefi gofal ac ysbytai

Dangosodd blychau pleidleisio electronig all-lein Brasil ffordd ddiogel o gynnal etholiadau'n gyflymach ac yn hygyrch. Nid oes gan bleidleiswyr dall a nam ar eu golwg yn y DU fynediad at bleidlais gyfrinachol ar hyn o bryd.

Mae'r system gofrestru bresennol yn cynnig maes posibl arall i'w ddiwygio. Er bod cofrestru'n orfodol ac y byddai pleidleiswyr yn derbyn ffurflen sy'n eu hatgoffa i wneud hynny, nid oes systemau croeswrio ar waith sy'n golygu bod dyblygu yn y gofrestr bresennol, sy'n niweidiol i waith gweinyddwyr etholiadol. Mae newidiadau posibl eraill yn cynnwys:

- Llythyrau at ddinasyddion yng Nghymru sy'n rhoi gwybod iddynt beth yw eu rhif Yswiriant Gwladol cyn eu pen-blwydd yn 16 oed yn cynnwys ffurflen cofrestru pleidleiswyr yn ogystal
- Gwneud cynnig i 'optio i mewn' a chofrestru'n effeithiol i bleidleisio wrth gael mynediad at rai gwasanaethau
- Dylai colegau a phrifysgolion annog cofrestru pleidleiswyr a meithrin arferion cofrestru pleidleiswyr yn eu prosesau cofrestru myfyrwyr blyneddol
- Dylid cynnal 'digwyddiadau' cofrestru gyda phoblogaethau o fewnfudwyr, ar ôl ymgynghori â grwpiau ac arweinwyr cymunedol
- Mae angen sicrhau bod gwybodaeth am sut i gofrestru'n ddienw ar gael yn glir a bod y broses ar gael yn rhwydd i bleidleiswyr
- Gellir cyflwyno offeryn ar-lein sy'n caniatáu i unigolion wirio eu statws cofrestru
- Dylai cofrestru ar y diwrnod pleidleisio fod ar gael yng Nghymru
- Dylid ymdrechu i gynnal cofrestr lân heb fod yn rhaid i ddinasyddion ailgofrestru

Dylid trin pleidleisio yng Nghymru fel pe bai'n orfodol, gan sicrhau safoni arferion a mynediad i bob pleidleisiwr. Dylai pob safle pleidleisio fod yn hygyrch i bleidleiswyr sydd â phroblemau symudedd a dylai fod ganddynt osodiadau digonol ar gyfer pobl feichiog a'r henoed.

Diogelwch ymgeiswyr ac asiantau

Prin yw'r dystiolaeth o effaith trais canfyddedig ar benderfyniad lleiafrifoedd gwleidyddol i geisio cael eu hethol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o drais yn erbyn gwleidyddion yn awgrymu bod y mater yn peri pryder a bod angen cymryd camau i'w wella, ynghyd â chamau eraill i wella amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth. Dangoswyd

bod y cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell gyson o gam-drin dyddiol. Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn:

- Mapio dyfnder y mater gyda darpar wleidyddion posibl mewn pleidiau gwleidyddol ac yn ystyried arolwg diogelwch gyda gwleidyddion cenedlaethol a lleol o bryd i'w gilydd
- Cynnwys camau gweithredu yn erbyn trais mewn canllawiau etholiad
- Gweithio gyda'r heddlu i wella hyfforddiant ar drais ar y rhyngwryd
- Gweithio gyda'r heddlu a llywodraeth leol i ddiogelu grwpiau wedi'u targedu
- Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol i godi ymwybyddiaeth ac i annog mesurau cynhwysol mewnol
- Ymgysylltu â'r gymdeithas i addysgu am faterion trais yn erbyn gwleidyddion ac i liniaru trafodaethau treisgar ar y cyfryngau cymdeithasol

Ariannu ymgyrchoedd a thryloywder hyn

Gellir gwella tryloywder ariannu ymgyrchoedd. Gallai hyn gael effaith ehangach ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Yn benodol, argymhellir bod canlyniadau etholiadau Cymru ac ariannu ymgyrchoedd:

- Yn cael eu hadrodd yn swyddogol ag offeryn ar-lein sy'n rhoi pwynt mynediad i bleidleiswyr at y wybodaeth honno
- Defnyddio rhyngwyneb hawdd ei ddefnyddio sy'n galluogi pleidleiswyr i ddod o hyd i'r data y maent yn chwilio amdanynt
- Cefnogi arferion data da a chynnig data sydd:
 - Â thrwydded agored
 - Yn ddarllenadwy gan beiriannau
 - Yn gallu cael eu lawrlwytho fel swp
 - Yn gyfredol
 - Ar gael i'r cyhoedd
 - Yn rhad ac am ddim
 - Yn amserol
 - Yn ddibynadwy

Argymhellir hefyd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu system adrodd data sy'n galluogi pleidiau i ddarparu gwybodaeth am ymgeiswyr ac sy'n cynnwys data ynghylch ffynonellau ariannu a manylion gwariant.

Sylwadau terfynol

Dadansoddodd yr adroddiad hwn dystiolaeth ryngwladol ynghylch pleidleisio cynnar ac arferion pleidleisio arloesol eraill, diogelwch ymgeiswyr ac asiantau, a thryloywder o ran ariannu ymgyrchoedd a'r gwariant arnyn nhw. Nod cyffredinol yr ymchwili oedd dod o hyd i enghreifftiau o arfer da i Lywodraeth Cymru eu hystyried er mwyn gwneud etholiadau'n fwy diogel ac yn fwy cynhwysol, i'r etholwyr ac i'r ymgeiswyr fel ei gilydd. Mae newidiadau posibl i weinyddiaeth etholiadol yn debygol o fod yn ddibynnol ar gyd-destun ac mae'n bwysig, felly, i gynlluniau peilot gael eu trafod a'u cynnal ochr yn ochr â thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Llyfryddiaeth

Aguiar, N. N., a Casalecchi, G. (2021). **E se o voto fosse facultativo? Expectativas de participação eleitoral voluntária no Brasil e o papel do status socioeconômico.** Opinião Pública, 27, 37.

Almeida, H. do N. de. (2017). **Representantes, representados e mídias sociais: Mapeando o mecanismo de agendamento informacional.**

Araújo, C. (2010). **Rotas de ingresso, trajetórias e acesso das mulheres ao legislativo – um estudo comparado entre Brasil e Argentina.** Revista Estudos Feministas.

Ballington, J. (2017). **Preventing violence against women in elections: A programming guide.** UN Women.

Bardall, G. (2011). **Breaking the Mold: Understanding Gender and Electoral Violence** (t. 52). IFES.

Bardall, G. (2013). **Gender-Specific Election Violence: The Role of Information and Communication Technologies.** Stability: International Journal of Security and Development. <https://doi.org/10.5334/sta.cs>

Bardall, G. (2019). **Symbolic Violence as a Form of Violence Against Women in Politics: A Critical Examination.** Revista Mexicana de Ciencias Políticas y Sociales, 65(238). <https://doi.org/10.22201/fcpys.2448492xe.2020.238.68152>

Bechtel, M. M., Hangartner, D., a Schmid, L. (2015). **Compulsory Voting, Habit Formation, and Political Participation** (SSRN Scholarly Paper ID 1914333). Social Science Research Network. <https://doi.org/10.2139/ssrn.1914333>

Berdahl, J. L. (2007). **Harassment Based on Sex: Protecting Social Status in the Context of Gender Hierarchy.** Academy of Management Review, 32(2), 641–658. <https://doi.org/10.5465/amr.2007.24351879>

Bernhard, R., Shames, S., a Teele, D. L. (2021). **To Emerge? Breadwinning, Motherhood, and Women's Decisions to Run for Office.** American Political Science Review, 115(2), 379–394. <https://doi.org/10.1017/S0003055420000970>

Bevelander, P., a Spång, M. (Göln). (2017). **Valdeltagande och representation Om invandring och politisk integration i Sverige.** <http://urn.kb.se/resolve?urn=urn:nbn:se:mau:diva-8379>

Bhatt, R., Dechter, E., a Holden, R. (2020). **Registration costs and voter turnout.** Journal of Economic Behavior Organization, 176, 91–104.
<https://doi.org/10.1016/j.jebo.2020.04.017>

Bhatti, Y. (2012). **Distance and Voting: Evidence from Danish Municipalities.** Scandinavian Political Studies, 35(2), 141–158. <https://doi.org/10.1111/j.1467-9477.2011.00283.x>

Birch, S., Daxecker, U., a Höglund, K. (2020). **Electoral violence: An introduction.** Journal of Peace Research. <https://doi.org/10.1177/0022343319889657>

Birch, S., a Muchlinski, D. (2018). **Electoral violence prevention: What works?** Democratization. <https://doi.org/10.1080/13510347.2017.1365841>

Bitzer, J.M. (dim dyddiad). **In North Carolina, It's Not Election Day** *Óltís Election Month: An Analysis of the 2008 Election.* 22.

Bjarnegård, E. (2013). **Gender, Informal Institutions and Political Recruitment: Explaining Male Dominance in Parliamentary Representation.** Palgrave Macmillan UK. <https://doi.org/10.1057/9781137296740>

Bjarnegård, E. (2018). Making Gender Visible in Election Violence: Strategies for Data Collection. **Politics Gender.** <https://doi.org/10.1017/s1743923x18000624>

Bjarnegård, E. (2021). The continuum of election violence: Gendered candidate experiences in the Maldives. **International Political Science Review.** <https://doi.org/10.1177/0192512120977111>

Bjarnegård, E., Håkansson, S., a Zetterberg, P. (2020). **Gender and Violence against Political Candidates: Lessons from Sri Lanka.** Politics & Gender. <https://doi.org/10.1017/s1743923x20000471>

Bjarnegård, E., a Kenny, M. (2015). **Revealing the “Secret Garden”: The Informal Dimensions of Political Recruitment.** Politics & Gender, 11(04), 748–753. <https://doi.org/10.1017/S1743923X15000471>

Blais, A., a Dobrzynska, A. (dim dyddiad). **Potential Impacts of Extended Advance Voting on Voter Turnout.** 47.

Blais, A., Dobrzynska, A., a Massicotte, L. (2003). **Why is Turnout Higher in Some Countries than in Others?** (t. 28). Elections Canada.

Carolan, L., a Wolf, P. (2017). **Open Data in Electoral Administration**. International Institute for Democracy and Electoral Assistance.
<https://doi.org/10.31752/idea.2017.5>

Chen, C., Sadeghpour, A., a Lamb, M. (2021). **Vote Centers and the Voter Experience**. American Politics Research, 49(6), 591–603.
<https://doi.org/10.1177/1532673X211029581>

Cinalli, M., a Giugni, M. (2011). **Social Capital, Political Participation and Migration in Europe**. Palgrave.

Collignon, S., Rüdiger, W., a Rudiger, W. (2020). **Harassment and intimidation of parliamentary candidates in the United Kingdom**. The Political Quarterly.
<https://doi.org/10.1111/1467-923x.12855>

Dyer, A., Bardall, G., a Rogers, T. A. (2019). **Violence Against Women in Elections in the Autonomous Region of Bougainville: An IFES Assessment**. IFES.

Y Comisiwn Etholiadol, (Prydain Fawr). (2006). **Electoral pilot scheme evaluation—Broxbourne Borough Council**. Y Comisiwn Etholiadol. Adalwyd o:
https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/electoral_commission_pdf_file/Broxbourne_22970-17157__E__N__S__W__.pdf

Y Comisiwn Etholiadol, (Prydain Fawr). (2019). **Report: Electoral registration at the June 2017 UK general election**. Adalwyd o:
<https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/elections-and-referendums/past-elections-and-referendums/uk-general-elections/results-and-turnout-2017-uk-general-election>

Engdahl, M., Lindgren, K.-O., a Rosenqvist, O. (2020). **The Role of Local Voting Rights for Non-Naturalized Immigrants: A Catalyst for Integration?** International Migration Review, 54(4), 1134–1157. <https://doi.org/10.1177/0197918319890256>

Ericsson, M. (2020). **Enfranchisement as a Tool for Integration: The 1975 Extension of Voting Rights to Resident Aliens in Sweden**. Immigrants & Minorities, 38(3), 233–253. <https://doi.org/10.1080/02619288.2021.1877138>

Ferwerda, J., Finseraas, H., a Bergh, J. (2018). **Voting Rights and Immigrant Incorporation: Evidence from Norway**. British Journal of Political Science, 50(2), 713–730. <https://doi.org/10.1017/S0007123417000643>

- Finseraas, H., a Vernby, K. (2014). **A mixed blessing for the left? Early voting, turnout and election outcomes in Norway.** Electoral Studies, 33, 278–291.
<https://doi.org/10.1016/j.electstud.2013.07.003>
- Fisher, S. D., Heath, A., Sanders, D., Sanders, D., a Sobolewska, M. (2015). Candidate Ethnicity and Vote Choice in Britain. **British Journal of Political Science.**
<https://doi.org/10.1017/s0007123413000562>
- Folke, O., a Rickne, J. (2016). **The Glass Ceiling in Politics: Formalization and Empirical Tests.** Comparative Political Studies, 49(5), 567–599.
<https://doi.org/10.1177/0010414015621073>
- Fox, R. L., a Lawless, J. L. (2003). **Family Structure, Sex-Role Socialization, and the Decision to Run for Office.** Women & Politics, 24(4), 19–48.
https://doi.org/10.1300/J014v24n04_02
- Fox, R. L., a Lawless, J. L. (2005). **To Run or Not to Run for Office: Explaining Nascent Political Ambition.** American Journal of Political Science.
<https://doi.org/10.1111/j.1540-5907.2005.00147.x>
- Fullmer, E.B. (2015a). **The Site Gap: Racial Inequalities in Early Voting Access.** American Politics Research, 43(2), 283–303.
<https://doi.org/10.1177/1532673X14546987>
- Fullmer, E.B. (2015b). **Early Voting: Do More Sites Lead to Higher Turnout?** Election Law Journal: Rules, Politics, and Policy, 14(2), 81–96.
<https://doi.org/10.1089/elj.2014.0259>
- Gaebler, S., Potrafke, N., Roesel, F. (2020). **Compulsory voting and political participation: Empirical evidence from Austria.** Regional Science and Urban Economics, 81, 103499. <https://doi.org/10.1016/j.regsciurbeco.2019.103499>
- Galicki, C. (2017). **Convenience voting and voter mobilisation: Applying a continuum model.** Representation, 53(3–4), 247–261.
<https://doi.org/10.1080/00344893.2018.1438307>
- Garnett, H. A. (2018). **Advance voting with same-day registration: The impact on turnout in New Zealand.** Political Science, 70(2), 102–116.
<https://doi.org/10.1080/00323187.2018.1561154>
- Garnett, H. A. (2019). **Early Voting: Comparing Canada, Finland, Germany, and Switzerland.** Election Law Journal: Rules, Politics, and Policy, 18(2), 116–131.
<https://doi.org/10.1089/elj.2018.0489>

- Goddard, D. (2016). **Public Attitudes to Party Funding in Britain**. Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/565048/Dee_Goddard_CSPL_Party_Funding_Report.pdf
- Gomes, L. P. (2012). **A presença feminina nos espaços legislativos: Um estudo das eleições de 2010 para a Assembleia Legislativa de Minas Gerais** [traethawd Meistr]. <http://www.bibliotecadigital.ufmg.br/dspace/handle/1843/BUOS-9AXGJ5>
- Gomes, L. P. (2015). **The impact of political trajectories on voting: A study of female candidates for a state legislature in Brazil**. *Politikon: IAPSS Journal of Political Science*, 28, 5–26. <https://doi.org/10.22151/politikon.28.1>
- Gomes, L. P. (2019). **What, how, and who: The substantive representation of women in Brazil, the United Kingdom, and Sweden** [Traethawd PhD].
- González, L. A. A. (2007). **La inscripción automática de electores en el ordenamiento electoral costarricense**. *Revista de Derecho Electoral*, 4, 1–12.
<https://dialnet.unirioja.es/servlet/articulo?codigo=3988138>
- Gronke, P., a Toffey, D. K. (2008). **The Psychological and Institutional Determinants of Early Voting**. *Journal of Social Issues*, 64(3), 503–524.
<https://doi.org/10.1111/j.1540-4560.2008.00575.x>
- Grumbach, J.M., a Hill, C. (2021). **Rock the Registration: Same Day Registration Increases Turnout of Young Voters**. *The Journal of Politics*, 000–000.
<https://doi.org/10.1086/714776>
- Håkansson, S. (2021). **Do Women Pay a Higher Price for Power? Gender Bias in Political Violence in Sweden**. *The Journal of Politics*, 83(2), 515–531.
<https://doi.org/10.1086/709838>
- Hamada, Y., ac Agrawal, K. (2020). **Political Finance Reforms: How to respond to today's policy challenges?** International Institute for Democracy and Electoral Assistance. <https://doi.org/10.31752/idea.2020.68>
- Hassell, H. J. G. (2017). **Teaching voters new tricks: The effect of partisan absentee vote-by-mail get-out-the-vote efforts**. *Research & Politics*, 4(1).
- Heinmaa, A., a Kalandadze, N. (2021). **Special Voting Arrangements in Europe: Postal, Early and Mobile Voting**. Adroddiad cyfres gweminar, Tachwedd 2020 International Institute for Democracy and Electoral Assistance.
<https://doi.org/10.31752/idea.2021.3>

Herrnson, P. S., Hanmer, M. J., a Koh, H. Y. (2019). **Mobilization Around New Convenience Voting Methods: A Field Experiment to Encourage Voting by Mail with a Downloadable Ballot and Early Voting.** Political Behavior, 41(4), 871–895. <https://doi.org/10.1007/s11109-018-9474-4>

Hoffman, M., León, G., a Lombardi, M. (2017). **Compulsory voting, turnout, and government spending: Evidence from Austria.** Journal of Public Economics, 145, 103–115. <https://doi.org/10.1016/j.jpubeco.2016.10.002>

Högström, J. (2020). **What characteristics affect early voting? The case of Sweden.** European Political Science. <https://doi.org/10.1057/s41304-019-00239-9>

IDEA. (2019). **Political Finance Transparency** (t 8). International IDEA.

Insights, A. G. (2017, Medi 4). **Unsocial Media: Tracking Twitter Abuse against Women MPs.** Medium. <https://medium.com/@AmnestyInsights/unsocial-media-tracking-twitter-abuse-against-women-mps-fc28aeca498a>

Jaitman, L. (2012). **The Causal Effect of Compulsory Voting Laws on Turnout: Does Skill Matter?** (SSRN Papur Ysgolheigaidd Rhif ID 2057055). Rhwydwaith Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol. <https://doi.org/10.2139/ssrn.2057055>

James, T. (2010). **Electoral Administration and Voter Turnout: Towards an International Public Policy Continuum.** Representation, 46(4), 369–389. <https://doi.org/10.1080/00344893.2010.518076>

James, T. S. (2011). **Fewer Costs, More Votes? United Kingdom Innovations in Election Administration 2000–2007 and the Effect on Voter Turnout.** Election Law Journal: Rules, Politics, and Policy, 10(1), 37–52. <https://doi.org/10.1089/elj.2009.0059>

James, T. S., a Bernal, P. (dim dyddiad). **Is it time for Automatic Voter Registration in the UK?** 64.

Jones, S. (dim dyddiad). **Digital Solutions for Political Finance Reporting and Disclosure.** 105.

Knack, S., a White, J. (2000). **Election-Day Registration and Turnout Inequality.** Political Behavior, 22(1), 29–44. <https://doi.org/10.1023/A:1006638400784>

Krook, M. L. (2017). **Violence Against Women in Politics.** Journal of Democracy, 28(1), 74–88. <https://doi.org/10.1353/jod.2017.0007>

Krook, M. L. (2018). **Westminster Too: On Sexual Harassment in British Politics**. *The Political Quarterly*, 89(1), 65–72. <https://doi.org/10.1111/1467-923X.12458>

Krook, M. L., a Sanín, J. R. (2016). **Violence Against Women in Politics**. *Política y Gobierno*, 2, 29.

Krook, M. L., a Sanín, J. R. (2019). **The Cost of Doing Politics? Analyzing Violence and Harassment against Female Politicians**. *Perspectives on Politics*. <https://doi.org/10.1017/s1537592719001397>

Kuperberg, R. (2018). **Intersectional Violence against Women in Politics**. *Politics & Gender*. <https://doi.org/10.1017/s1743923x18000612>

Lawless, J. L. (2015). **Female Candidates and Legislators**. *Annual Review of Political Science*. <https://doi.org/10.1146/annurev-polisci-020614-094613>

Lawless, J. L., a Fox, R. L. (2010). **It Takes a Candidate: Why Women Don't Run for Office**. Gwasg Prifysgol Caergrawnt. <http://search.ebscohost.com/login.aspx?direct=true&scope=sitedb=nlebkAN=331360>

Yr Arglwydd Evans o Weardale, Cadeirydd y Pwyllgor. (2021). **Regulating Election Finance**. Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/999636/CSPL_Regulating_Election_Finance_Review_Final_Web.pdf

Mansbridge, J., a Shames, S. L. (2008). **Toward a Theory of Backlash: Dynamic Resistance and the Central Role of Power**. *Politics & Gender*, 4(04), 623. <https://doi.org/10.1017/S1743923X08000500>

Maškarinec, P. (2021). **Women and Local Politics: Determinants of Women's Emergence and Success in Elections to Czech Town Councils, 1998–2018**. *Urban Affairs Review*. . <https://doi.org/10.1177/1078087421992879>

McAllister, I., a Muller, D. (2018). **Early voting, election campaigning and party advantage in Australia**. *Electoral Studies*, 52, 103–110. <https://doi.org/10.1016/j.electstud.2018.02.003>

Morris, G., Scott, R., a Woodward, A. (2002). **Polls apart: A future for accessible democracy**. SCOPE. <https://www.electoralcommission.org.uk/media/3697>

Murray, R. (2010). **Linear Trajectories or Vicious Circles? The Causes and Consequences of Gendered Career Paths in the National Assembly.** Modern & Contemporary France.

Neeley, G. W., a Richardson, L. E. J. (2001). **Who is early voting? An individual level examination.** The Social Science Journal, 38(3), 381–392.
[https://doi.org/10.1016/S0362-3319\(01\)00135-5](https://doi.org/10.1016/S0362-3319(01)00135-5)

Park, M., Price, J., a Taylor-Collins, E. (2020). **Increasing diversity in public appointments through recruitment** (t 30). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Phillips, A. (1995). **The politics of presence.** Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Piccolino, G. (2015). **Making Democracy Legible? Voter Registration and the Permanent Electronic Electoral List in Benin.** Development and Change, 46(2), 269–292. <https://doi.org/10.1111/dech.12148>

Piscopo, J. M. (2016). **State Capacity, Criminal Justice, and Political Rights.** Política y Gobierno, 2, 18.

Pitkin, H. F. (1972). **The concept of representation** (1. arg. Clawr papur, [Nachdr.]). Gwasg Prifysgol California.

Potrafke, N., a Roesel, F. (2020). **Opening hours of polling stations and voter turnout: Evidence from a natural experiment.** The Review of International Organizations, 15(1), 133–163. <https://doi.org/10.1007/s11558-018-9305-8>

Priestley, M., Stickings, M., Loja, E., Grammenos, S., Lawson, A., Waddington, L., Fridriksdottir, B. (2016). **The political participation of disabled people in Europe: Rights, accessibility and activism.** Electoral Studies, 42, 1–9.
<https://doi.org/10.1016/j.electstud.2016.01.009>

Puwar, N. (2004). **Space invaders: Race, gender and bodies out of place.** Berg.

Quinlan, S. (2015). **Facilitating the Electorate: A Multilevel Analysis of Election Timing, Registration Procedures, and Turnout.** Irish Political Studies, 30(4), 482–509. <https://doi.org/10.1080/07907184.2015.1099041>

Rallings, C., Thrasher, M., a Borisjuk, G. (2010). **Much Ado about Not Very Much: The Electoral Consequences of Postal Voting at the 2005 British General Election.** The British Journal of Politics & International Relations, 12(2), 223–238.
<https://doi.org/10.1111/j.1467-856X.2010.00403.x>

Rojas, A. J., a Muller, D. A. (2014). **Early Voting in Australian Federal Elections: Causes and Consequences**. SSRN Electronic Journal.

<https://doi.org/10.2139/ssrn.2440075>

Rosenblatt, G., Thompson, P., a Tiberti, D., Ar ran y Comisiwn Etholiadol. (2012). **The Quality of the Electoral Registers in Great Britain and the Future of Electoral Registration**. Parliamentary Affairs, 65(4), 861–876.

<https://doi.org/10.1093/pa/gss052>

Roy, A. (2012). **Identifying Citizens: Electoral Rolls, the Right to Vote, and the Election Commission of India**. Election Law Journal: Rules, Politics, and Policy, 11(2), 170–186. <https://doi.org/10.1089/elj.2011.0124>

Royal National Institute of Blind People. (2020). **Turned Out 2019: The latest research into voter experiences**. <https://www.rnib.org.uk/campaigning/priority-campaigns/voting-and-elections/turned-out-2019-latest-research-voter-experiences>

Scarrow, S. E. (2016). **The state of political finance regulations in Canada, the United Kingdom and the United States** (t 24). International IDEA.

Sheppard, J., a Beauregard, K. (2018). **Early voting in Australia: The costs and benefits of convenience**. Political Science, 70(2), 117–134.

<https://doi.org/10.1080/00323187.2018.1561155>

Showunmi, V., a Price, J. (2021). **Improving Race Equality in Leadership and Representation** (t 23). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Stein, R. M. (1998). **Introduction: Early Voting**: Public Opinion Quarterly, 62(1), 57. <https://doi.org/10.1086/297831>

Stein, R.M., a Vonnahme, G. (2008). **Engaging the Unengaged Voter: Vote Centers and Voter Turnout**. The Journal of Politics, 70(2), 487–497.

<https://doi.org/10.1017/S0022381608080456>

Stein, R.M., a Vonnahme, G. (2012). **When, Where, and How We Vote: Does it Matter?: When, Where, and How We Vote**. Social Science Quarterly, 93(3), 692–712. <https://doi.org/10.1111/j.1540-6237.2012.00863.x>

Taylor-Collins, E., a Park, M. (2020). **Cefnogi grwpiau a dangynrychiolir i gael penodiadau cyhoeddus** (t.20). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

- Thompson, D. F. (2008). **Electoral Simultaneity: Expressing Equal Respect.** Journal of Social Issues, 64(3), 487–501. <https://doi.org/10.1111/j.1540-4560.2008.00574.x>
- Tonhäuser, V., a Stavenes, T. (2020). **Why change party finance transparency? Political competition and evidence from the ‘deviant’ case of Norway.** European Journal of Political Research, 59(3), 578–598. <https://doi.org/10.1111/1475-6765.12369>
- Tossutti, L. S. (2007). **The electoral participation of ethnocultural communities (Adroddiad).** Elections Canada. <https://aceproject.org/ero-en/regions/americas/CA/canada-the-electoral-participation-of>
- Townsley, J., a Turnbull-Dugarte, S. J. (2020). **Can parties recruit postal voters? Experimental evidence from Britain.** Electoral Studies, 64, 102022. <https://doi.org/10.1016/j.electstud.2019.02.013>
- vanHeerde-Hudson, Jennifer, a Justin Fisher. 2013. **Parties Heed (with Caution): Public Knowledge of and Attitudes towards Party Finance in Britain.** Party Politics 19(1): 41–60. <http://journals.sagepub.com/doi/10.1177/1354068810393268> (7 Mehefin, 2021).
- Wass, H., Mattila, M., Rapeli, L., a Söderlund, P. (2017). **Voting while ailing? The effect of voter facilitation instruments on health-related differences in turnout.** Journal of Elections, Public Opinion and Parties, 27(4), 503–522. <https://doi.org/10.1080/17457289.2017.1280500>
- Weil, M. (2016). **The Implications of Shortening Early Voting Periods: A Case Study from Mecklenburg County, North Carolina.** <https://jscholarship.library.jhu.edu/handle/1774.2/38681>
- Wolf, P. (2021). **Open Data in Elections: Why It Is Needed and What Can Be Done to Make More Progress.** International Institute for Democracy and Electoral Assistance. <https://doi.org/10.31752/idea.2021.58>

Manylion am yr Awduron

Mae **Dr Larissa Peixoto Gomes** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae'r **Athro James Downe** yn Gyfarwyddwr Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Manon Roberts** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Larissa Peixoto Gomes

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

larissa.peixoto@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored



**Wales Centre
for Public Policy**
**Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru**